

Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR SWAIDESTREF SIRIOL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BARRIETHRE SIROR
wrecsam

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MERCHER, 22AIN TACHWEDD, 2017

Lleoliad

Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF

Pwynt Cyswllt

Sioned Williams

01286 679729

sionedwilliams3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd: 17/11/2017)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Y Cynghorwr Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorwr Garffild Lewis	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Y Cynghorwr Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorwr Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorwr Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Y Cynghorwr Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rita Price	Esgobaeth Wreccsam
Diane Chisholm	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Mair Herbert	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Delyth Molyneux	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Claire Homnard	Cyngor Sir y Fflint
Ian Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Iwan G. Evans	Awdurdod Lletyol
Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Steve Vincent	Llywodraeth Cymru
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes GwE
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Rhys Howard Hughes	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad buddiant personol.

3. MATERION BRYG

I nodi unrhyw faterion bryg ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 4 - 5

(copi'n atodedig)

5. ADBORTH ESTYN 6 - 16

6. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 ADRODDIAD MONITRO 17 - 59 CHWARTER 2

7. CYLLIDEB GWE 2017-18 - ADOLYGIAD CHWARTER 2 60 - 64

8. STRATEGAETH GWELLA GWE 2017-20 - UWCHRADD, 65 - 121 CYNRADD A CWRICWLWM I GYMRU

9. CYNLLUN DATBLYGU'R GWEITHLU I GEFNOGI'R GYMRAEG 122 - 134 MEWN ADDYSG

CYD-BWYLLGOR GwE

04.10.2017

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Gareth Thomas – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd, Phil Wynn – Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw-Hilditch Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy).

Swyddogion heb bleidlais: Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn), Jullian Molloy (Cyngor Sir Ddinbych).

Hefyd yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Steve Vincent (Llywodraeth Cymru), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Rita Price (Esgobaeth Wrecsam), Diane Chisholm (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwr), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Dr Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Derbyniwyd y cofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Medi 2017 fel rhai cywir.

5. CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION ESTYN

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar y cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion a nodir yn adroddiad Estyn ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortium Gogledd Cymru. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor mynegi eu barn am yr adroddiad gan ystyried y ddwy elfen y bydd Estyn yn fesur, sef y cynnydd yn erbyn y chwe argymhelliad, a gosod y cynnydd yng nghyd-destun y cynnydd sydd wedi digwydd ers sefydlu GwE.

Amlygwyd y dylid canmol cyflymder y cynnydd yn ystod yr amser a roddwyd, ond er bod y sefyllfa llawer mwy positif eleni, 'does dim modd rhagweld effaith y newidiadau ar wasanaethau GwE.

Derbyniwyd sylwadau y Cydbwyllgor a diolchodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE am eu cyfraniad a nodwyd y byddai'n ystyried y sylwadau.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

6. CYNLLUN BUSNES 2017-2020 LEFEL 1

Cyflwynwyd adroddiad Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn nodi gweledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE monitro chwarter 1 y Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020

Cafwyd trafodaeth o amgylch yr agweddau oedd yn peri pryder.

Amlygwyd perfformiad mathemateg fel mater sydd angen sylw. Cyfeiriwyd at y gofrestr risg a cafwyd trafodaeth pellach yn yr eitem i ddilyn.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

7. COFRESTR RISG

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y gofrestr risg ddiweddaraf i'r Cydbwyllgor. Nodwyd bod y gofrestr risg yn ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru, ac yn galluogi GwE i gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad. Pwysleisiodd fod y gofrestr risg yn agored i aelodau'r Cydbwyllgor ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Croesawyd unrhyw sylwadau gan y Cydbwyllgor.

Tynnwyd sylw at y golofn 'lliniaru'r risg' ac amlygwyd bod angen cryfhau R1 a R2.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

8. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd adroddiad ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18-2020/21 gan Bennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrifon gorau bosib yn wyneb yr her ariannol ac ansicrwydd y dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

9. POLISI A FFRAMWAITH GWERTH AM ARIAN

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE Polisi Gwerth am Arian a Fframwaith GwE i'r Cydbwyllgor. Nodwyd mai'r amcan yw sicrhau perfformiad 'absoliwt', targedu a gwella adnoddau, a chynyddu iechyd sefydliadol y gweithlu. Amlygir bod staff GwE yn ymwybodol o'r amcanion hyn ac yn cefnogi'r polisi.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

Eitem 5

GwE: Cyd-bwyllgor 22/11/17



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 TACHWEDD 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Ymweliad Estyn

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar yr adborth yn dilyn Ymweliad Estyn yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Hydref 2017

2.0 Ystyriaethau

2.1 Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn y bythefnos yn dechrau 18 Ebrill 2016.

2.2 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar eu canfyddiadau a oedd yn cynnwys y 6 argymhelliad a ganlyn:

- **A1:** Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
- **A2:** Gwella ansawdd yr arfarnu wrth gyflawni gwasanaethau gwella ysgolion.
- **A3:** Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- **A4:** Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.
- **A5:** Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.
- **A6:** Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

2.3 Datblygwyd cynllun ôl-arolwg a'i gynnwys yn y Cynllun Busnes Rhanbarthol.

2.4 Ym mis Hydref 2017, ymwelodd Estyn â GwE i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y consortiwm mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad.

2.5 Wrth arfarnu'r cynnydd yn erbyn pob argymhelliad, ystyriwyd y canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng arolygiad ac ymweliad dilynol, yn ogystal â chymhlethdod y materion i fynd i'r afael â nhw?
- A yw'r consortiwm wedi cael cymorth priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion gan ei awdurdodau lleol partner?
- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â phob argymhelliad wedi cael eu hymgorffori ddigon yn ei arferion gweithio i sicrhau gwelliant cynaledig?

2.6 Wrth lunio barn am y cynnydd yn erbyn yr argymhellion, bu'r tîm monitro yn ystyried y tueddiadau mewn perfformiad dros y pum mlynedd ddiwethaf fel cyd-destun ar gyfer arfarnu effaith ei waith mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir priodoli deilliannau yn gyfan gwbl i waith y consortiwm rhanbarthol am fod gan bartneriaid eraill yn y system rôl bwysig hefyd.

2.7 Bu'r tîm monitro yn ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cynllunio busnes y consortiwm, arfarniadau, adroddiadau ymgynghorwyr her, gweithdrefnau gosod targedau, asesiadau risg a safbwyntiau penaethiaid.

2.8 Nid yw Estyn yn bwriadu cynnal unrhyw ymweliadau dilynol pellach â GWE. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro'n anffurfiol gan arolygydd cyswllt rhanbarthol Estyn ac arolygwyr cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol, a'u hystyried yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn y dyfodol.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.0 Goblygiadau Ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Goblygiadau Cydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

7.1 Ni fu ymgynghori.

8.0 Atodiadau

8.1 Adroddiad ar ail ymweliad Estyn â GwE: Cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Adroddir ar yr ymateb i argymhellion Estyn yn yr Adroddiad Monitro Cynllun Busnes 2il Chwarter sydd gerbron y Pwyllgor. Nid oes gennyf sylwadau felly o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Cafwyd trafodaeth fuddiol a chynhwysfawr gydag arolygwyr Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru am drefniadau, risgiau a chynlluniau cyllidol GwE. Cyflwynir sylwadau pellach, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 22 Tachwedd.



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad yn dilyn monitro

**Consortiwm GwE
Bryn Eirias
Ffordd Abergele
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8BY**

Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Canlyniad yr ymweliad

Cyflwyniad

Yn Ebrill 2016, arolygodd Estyn y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan y GWE. Ym mis Hydref 2017, ymwelodd Estyn â GWE i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y consortiwm mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad.

Wrth arfarnu cynnydd ar gyfer pob argymhelliad, fe wnaethom ystyried y canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng arolygiad ac ymweliad dilynol, yn ogystal â chymhlethdod y materion i fynd i'r afael â nhw?
- A yw'r consortiwm wedi cael cymorth priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion gan ei awdurdodau lleol partner?
- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â phob argymhelliad wedi cael eu hymgorffori ddigon yn ei arferion gweithio i sicrhau gwelliant cynaledig?

Wrth lunio barn am y cynnydd yn erbyn yr argymhellion, bu'r tîm monitro yn ystyried y tueddiadau mewn perfformiad dros y pum mlynedd ddiwethaf fel cyd-destun ar gyfer arfarnu effaith ei waith mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir priodoli deilliannau yn gyfan gwbl i waith y consortiwm rhanbarthol am fod gan bartneriaid eraill yn y system rôl bwysig hefyd.

Bu'r tîm monitro yn ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cynllunio busnes y consortiwm, arfarniadau, adroddiadau ymgynghorwyr her, gweithdrefnau gosod targedau, asesiadau risg a safbwyntiau penaethiaid.

Nid yw Estyn yn bwriadu cynnal unrhyw ymweliadau dilynol pellach â GWE. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro'n anffurfiol gan arolygydd cyswllt rhanbarthol Estyn ac arolygwyr cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol, a'u hystyried yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn y dyfodol.

Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Ers yr arolygiad craidd, mae GwE wedi cynnal adolygiad dwys a chynhwysfawr o'i waith a'i effaith ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r gweithredu buan yn dilyn y gwaith hwn wedi sicrhau bod gan randdeiliad ar bob lefel hyder cynyddol yng ngallu GwE i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol. Gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i strwythurau rheolaethol i ddosrannu'r arweinyddiaeth a sicrhau llinellau atebolrwydd clir. Mae arweinyddiaeth gref a phendant y rheolwr gyfarwyddwr wedi bod yn ffactor allweddol o ran sicrhau gwelliannau arwyddocaol yn ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion ers yr arolygiad.

Argymhelliad 1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gosod targedau a gweithdrefnau olrhain yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae GwE wedi sicrhau bod dyraniad mwy cymesur o adnoddau ac amser i gydweithio ag ysgolion uwchradd nag oedd ar adeg yr arolygiad craidd. Mae arweinwyr wedi ystyried barn rhanddeiliaid yn briodol ac wedi sefydlu diwylliant mwy cefnogol a chynhyrchiol. Lle'r oedd ymgynghorwyr her, yn flaenorol, yn hyfedr wrth herio ysgolion ynghylch meysydd yr oedd angen iddynt eu gwella, nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddarparu'r cymorth i alluogi hyn i ddigwydd. Mae GwE wedi rhoi ffocws o'r newydd ar rôl yr ymgynghorwyr her a'u hail-frandio fel ymgynghorwyr cefnogi gwelliant. Gwneir defnydd ystyrion o arbenigedd ac arbenigeddau'r ymgynghorwyr cefnogi gwelliant. Maent yn deall eu rolau'n dda ac mae cylch gwaith clir gan bawb. O ganlyniad, mae gwell cydbwysedd rhwng lefel yr her a chefnogaeth i ysgolion a rhoddir pwyslais ar gyd-drefnu a chydweithio. Lle mae angen lefel uwch o her er mwyn codi safonau, mae GwE yn gweithredu'n gyflym ac yn bwrpasol. Mae'r gweithredu newydd hyn wedi arwain at welliannau cadarn mewn safonau yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ar draws y rhanbarth ers adeg yr arolygiad craidd. Un enghraifft dda o hyn yw'r gefnogaeth a roddwyd i adran Saesneg mewn ysgol sydd mewn categori statudol a gyfrannodd at welliant sylweddol yn neilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4

Mae GwE wedi cymryd camau cadarnhaol iawn i wella systemau trin a thrafod data o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Mae'r system soffistigedig hon yn cynnwys data cynhwysfawr ar gyfer pob cyfnod allweddol ac mae swyddogion GwE yn ei ddadansoddi'n bwrpasol ar gyfer ysgolion unigol, sector, awdurdodau lleol a'r rhanbarth. Mae'r drefn hon wedi arwain at well cysondeb yn y math o ddata sy'n cael ei ystyried a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio. O ganlyniad, gwneir defnydd llawer mwy effeithiol o ddata ar gyfer herio a threfnu cefnogaeth benodol i ysgolion nag a welwyd adeg yr arolygiad.

Mae GwE, ar y cyd ag awdurdodau lleol a'r ysgolion, wedi tynhau a chysoni'r drefn o osod targedau. Mae targedau'r rhanbarth yn deillio'n uniongyrchol o dargedau disgyblion unigol. Rhoddir canllawiau clir iawn i ysgolion ar sut i osod targedau sy'n ystyrion a realistig. O ganlyniad, mae targedau'r sector gynradd a chyfnod allweddol 3 yn agos at berfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae GwE yn rhoi arweinaid pendant i ysgolion ar olrhain deilliannau yn erbyn targedau. Bydd ysgolion yn cyflwyno rhagfynegiadau o berfformiad yn rheolaidd i'r consortiwm ac mae arweinwyr ar bob lefel yn cael mynediad at y data hwn. Gwneir defnydd cynhyrchiol o'r wybodaeth hon i gynnal trafodaethau manwl yn yr ysgolion ac i lunio cymorth pwrpasol i reolwyr ac adrannau unigol. Yn ogystal, mae'n rhoi trosolwg lefel uchel o berfformiad ysgolion a grwpiau o ddisgyblion ar draws GwE. Mae hyn yn caniatáu i arweinwyr sicrhau ansawdd gwaith GwE wrth wella ysgolion.

Fel rhan o'r dull diwygiedig o gydweithio ag ysgolion, mae GwE yn llunio rhaglen cymorth bwrpasol i bob un ysgol, waeth beth fo'u hangen. Bellach, mae ysgolion yn cael llawer iawn o fewnbwn wrth lunio'r rhaglenni cymorth. Mae hyn yn golygu bod

cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu meysydd ehangach neu i dargedu materion penodol yn dilyn arfarniadau penaethiaid ysgolion, er enghraifft cynyddu capasiti rheolwyr canol neu wella ansawdd y ddarpariaeth yn y chweched dosbarth.

Mae ansawdd gwaith yr ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau craidd yn rhagorol. Maent yn ymateb yn synhwyrol, ac yn aml yn greadigol iawn, i anghenion ysgolion unigol ac yn darparu arweiniad clir a buddiol iawn i arweinwyr pynciau craidd ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau mewn ysgolion penodol yn ogystal â chryfhau a chysoni ansawdd cynllunio, dysgu ac addysgu ar draws y rhanbarth yng nghyfnod allweddol 4.

Mae GwE yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau mewnol dwys mewn ysgolion unigol. Mae buddsoddiad helaeth mewn adnoddau dynol ac amser yn sicrhau bod ysgolion yn derbyn adolygiadau cynhwysfawr a theg. Mae adroddiadau sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn drylwyr ac yn cynnwys argymhellion pwrpasol.

Mae'r gweithredu buan ac uniongyrchol i wella ansawdd y gwasanaeth rhanbarthol ers adeg yr arolygiad craidd wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Yn ogystal, mae'r ymyraethau wedi'u targedu at yr ysgolion hynny yr oedd angen gweithredu brys ynddynt wedi llwyddo i godi safonau mewn amser byr yn y rhan fwyaf o achosion. Er y gwelliannau amlwg yn ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y gwasanaeth gwella ysgolion, mae'n rhy fuan i fesur effaith hyn yn gyffredinol ar draws y rhanbarth yng nghyfnod allweddol 4.

Argymhelliad 2: Gwella ansawdd arfarnu wrth gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae GwE wedi gwneud nifer o welliannau i'r modd y maent yn arfarnu ansawdd y gwasanaeth gwella ysgolion. Mae'r fframwaith cynllunio trefnus yn sicrhau bod atebolrwydd a'r prosesau monitro fel ei gilydd yn gydlynol. Cryfder y fframwaith gynllunio yw ei fod yn syml ac yn ddealladwy gan bawb. Mae hyn yn golygu bod staff GwE yn glir iawn ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'r disgwyliadau sydd arnynt o ran cyflawni eu rolau.

Mae cynlluniau busnes ar gyfer y ffrydiau gwaith gwahanol yn dilyn trefn gyson. Mae rheolwyr yn olrhain ac yn arfarnu cynnydd yn erbyn targedau sydd yn y cynlluniau busnes yn rheolaidd ac yn adrodd i'r byrddau perthnasol yn unol â'r amserlenni. Maent yn defnyddio tystiolaeth gyfredol i addasu'r gweithgaredd pan fo'n briodol gan ymateb yn gyflym i'r anghenion sy'n codi.

Yn dilyn gweithgaredd hyfforddiant neu ymweliad ysgol, bydd ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn cyflwyno adroddiad sy'n nodi cryfder a meysydd gwella. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn arfarnol a phriodol ac yn pwysleisio effaith gweithgareddau ar ddeilliannau disgyblion, boed hynny yn ddeilliannau ansoddol neu feintiol. Mae hyn yn caniatáu arweinwyr GwE i gywain tystiolaeth uniongyrchol gref o effaith ac ansawdd gweithgareddau gwella ysgolion, ac i ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn adnabod arfer dda neu ymateb i byrderon.

Er mwyn adeiladu cymwyseddau a chapasiti staff, mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ar brosiect 'Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith' i ddatblygu sistemau a methodoleg arfarnu. Mae hyn yn galluogi staff GwE ac ysgolion y rhanbarth i ddechrau arfarnu effaith prosiectau mawr a chymhleth mewn modd priodol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhan o weithredu ehangach GwE i ddatblygu gweithlu dysgu proffesiynol sy'n ymwneud yn fwyfwy â phrosiectau ymchwilweithredol. Yn ogystal, mae'n adlewyrchu dyhead GwE i ddatblygu fel sefydliad dysgu sy'n dysgu o'r gorffennol ac yn edrych ar ffyrdd i arloesi i'r dyfodol.

Argymhelliad 3: Gwella trylwyrdeb y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risg

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Bellach, mae GwE yn defnyddio proses glir a chytûn ar gyfer adnabod a rheoli risgiau. Mae hyn yn cynnwys cofrestr risg ddefnyddiol, gyda chyfeiriadau priodol at effaith bosibl y prif risgiau a nodwyd ar gyllid a llywodraethu, ac ar gyflawni blaenoriaethau'r cynlluniau busnes. Mae'r cynlluniau busnes ar wahanol lefelau o fewn y consortiwm bellach yn cynnwys cyfeiriadau synhwyrol at y risgiau. O ganlyniad, mae llawer gwell cysylltiad rhwng asesiadau risg a chynlluniau gwella ac amcanion strategol y consortiwm.

Mae GwE wedi datblygu diwylliant cryfach o arfarnu risg. Mae'r risgiau'n cael eu hystyried a'u harfarnu'n systematig, yn deg ac yn gymesur gan y cydbwyllgor a byrddau perthnasol eraill. Mae ystyriaethau priodol yn eu lle er mwyn lleihau effaith bosibl y risgiau. Erbyn hyn, mae'r cydbwyllgor yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o risgiau yn fwy systematig er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ac ystyried gwersi a ddysgwyd. O ganlyniad, mae rheolaeth strategol well o fewn GwE i warchod eu buddiannau a herio materion o bryder. Er hynny, mae'n rhy fuan i weld pa mor effeithiol yw'r camau lliniaru sydd wedi eu hadnabod ar gyfer llawer o'r risgiau.

Argymhelliad 4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddo clir a bod cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae GwE wedi sicrhau trefniadau llawer mwy cadarn ar gyfer cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir ac i gymryd camau unioni pan fo'n briodol.

Mae GwE wedi gosod amcanion heriol a mesuradwy erbyn 2020 i wella safonau, y cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth, lles ac addysgu. Cefnogir y rain gan gynlluniau busnes manwl ac mae trywyddau amlwg yn rhedeg drwy haenau amrywiol y cynlluniau. Mae'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys amcanion penodol, targedau y gellir eu mesur a'u cyflawni, gan gynnwys cerrig milltir a chostau. Mae cyfrifoldebau wedi'u dyrannu i dimau neu unigolion yn glir ac maent yn cynnwys ffynonellau ariannu priodol. Mae GwE yn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r flwyddyn bresennol yn synhwyrol, gan sicrhau dull strategol a chynaliadwy o wella ysgolion.

Mae'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yn cael ei arfarnu'n rheolaidd ar wahanol lefelau. Mae'r GwE wedi cryfhau'r llinellau atebolwydd ar bob lefel o gynllunio ar draws y rhanbarth. Er enghraifft, drwy'r fframwaith atebolwydd clir, mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn adolygu eu cynlluniau bob chwarter, ac yn arfarnu cynnydd ac effaith yn briodol. Mae hyn yn cynnwys olrhain y gwariant yn erbyn deilliannau'r cynlluniau. Mae trefn glir ble mae uwch arweinwyr yn monitro'r gweithredu ac arfarnu'r cynlluniau ac mae'r cydbwyllgor a byrddau perthnasol eraill yn arfarnu cynnydd a herio perfformiad yn briodol.

Er bod y broses o reoli perfformiad yn gymharol newydd, mae enghreifftiau da ble mae'r cynllunio, y blaenoriaethau a'r gweithredoedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth mewn ysgolion, er enghraifft y cynllunio ar gyfer cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Argymhelliad 5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolwydd i'r Cydbwyllgor

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae awdurdodau addysg gogledd Cymru wedi naill ai ddiidymu'r rhwydweithiau rhanbarthol neu, yng nghyd-destun rhwydwaith y Gymraeg, ei gynnwys o dan adain rheolaeth strategol GwE. Mae'r newid strwythurol yn golygu bod gan benaethiaid a rhanddeiliaid eraill well eglurdeb ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau mewn meysydd pwysig a gwyddant at bwy i droi am gymorth pan fo angen. Yn ogystal, mae eu hatebolwydd i'r cydbwyllgor yn gwbl glir.

Mae'r newid strwythurol yn golygu bod gan GwE reolaeth strategol ar y meysydd hyn sy'n cynnig mwy o gyfle i hyrwyddo a chefnogi gwelliant cydlynol yn ysgolion y rhanbarth. Enghraifft dda yw'r gwell gefnogaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen ar draws y rhanbarth sydd yn cael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd y ddarpariaeth a deiliannau disgyblion.

Mae'r rhwydwaith cefnogi'r Gymraeg yn trafod cynlluniau pellgyrhaeddol ar gyfer cynllunio gweithlu fydd yn bodloni anghenion ieithyddol y rhanbarth i'r dyfodol. Cyd-destun y trafodaethau yw cynlluniau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Er bod y cynllunio a'r trafodaethau yn eu dyddiau cynnar, mae GwE yn awyddus i fwrw ati i chwarae rôl ganolog yn y gwaith hwn.

Argymhelliad 6: Datblygu fframwaith priodol ar gyfer asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod costau ffrydiau gwaith wedi'u nodi'n llawn.

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae proses cynllunio busnes GwE bellach yn nodi costau pob gweithgaredd o fewn y cynlluniau busnes ar bob lefel, gan gynnwys sut mae grantiau yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun busnes. Mae'n ofynnol i ddeiliaid cynlluniau busnes werthuso eu defnydd o adnoddau yn chwarterol ac mae proses glir i amlygu pryderon. Mae'r monitro hwn yn sicrhau bod arweinwyr yn deall eu heffeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, cyllid craidd neu gyllid grant. Mae uwch arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o fonitro chwarterol i olrhain cynnydd yn erbyn

blaenoriaethau. Mae deiliaid cynlluniau busnes yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol drwy'r broses fonitro.

Mae GwE wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig sy'n adnabod y risgiau a all effeithio ar y lefelau ariannu, er enghraifft chwyddiant, newidiadau i gyfraniadau awdurdod lleol i gyllidebau craidd a lefelau cyllid grant. Mae'r cynllun yn nodi amrywiaeth o senarios ariannol yn seiliedig ar ragdybiaethau clir y gall GwE eu defnyddio i ymateb i'r heriau a nodwyd wrth gynllunio cyllidebau blynyddol. Mae'r awdurdod cyllid lletyol, ar y cyd â swyddogion GwE, yn adolygu'r cynllun mewn ymateb i wybodaeth berthnasol a allai effeithio ar y modelau ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag effaith negyddol y senarios hynny. Mae hyn yn helpu GwE i ymateb yn fwy strategol i newidiadau yn y cyllid gan ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol. Mae GwE yn datblygu cynllun gweithlu cydlynol sy'n cyd-fynd â chanlyniadau ei arolwg iechyd sefydliadol diweddar a chanfyddiadau arolwg sefydliad sy'n dysgu.

Yn ddiweddar, mae GwE wedi llunio polisi a fframwaith gwerth am arian priodol sy'n cysylltu'r adnoddau a ddefnyddir gyda'r canlyniadau a gyflawnwyd yn glir. Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau gwerth am arian yn dechrau gwreiddio trwy holl waith GwE. Mae uwch arweinwyr a gweddill y staff fel ei gilydd yn rhannu'r cyfrifoldeb o sicrhau gwerth am arian.

Mae'r fframwaith yn darparu arweiniad priodol i ddeiliaid cynlluniau busnes ar sut i gynnal asesiadau gwerth am arian. Ar hyn o bryd, nid yw ychydig o arfarniadau gwerth am arian yn cyfarch barn rhanddeiliaid nac yn cynnwys mesurau i anelu at weithredu mwy economaidd, effeithlon ac effeithiol.

O ganlyniad i ddatblygiad y polisi priodol, y fframwaith a lledaenu'r cyfrifoldeb, mae GwE bellach mewn sefyllfa well i asesu gwerth am arian.

Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai GwE barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 TACHWEDD 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Cynllun Busnes Lefel 1 – Adroddiad Monitro Chwarter 2

1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 2 - Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 yn nodi gweledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

2.2 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ynglwm mae adroddiad Monitro Chwarter 2.

3.2 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun Lefel 1 fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a Wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE wrth ddatblygu'r Cynllun Busnes Lefel 1.

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Monitro Chwarter 2.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt Priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n pennu cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, gwerth am arian, ymysg eraill. Tra bydd yn heriol i weithredu bob agwedd ohono, disgwylir i GwE gyllido unrhyw ymhlygiadau ariannol o'i adnoddau cyfredol.

Cynllun Busnes 2017-20

Lefel 1

Adroddiad Monitro Chwarter 2

Cynllun Busnes GwE 2017-20
Monitro Chwarter 2 - Lefel 1

1. SAFONAU							
Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
1 1.6 1.7 E1 C ALI x 6 R6 R7 R15	Safonau - sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.	Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen: <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyflymder y gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Codi safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen Cynnal safonau da yn Wrecsam a Sir y Flint. 	Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth gyda 89.84% yn cyflawni'r DCS. Gwelliant yn y % sy'n cyflawni'r DCS yn: <ul style="list-style-type: none"> Ynys Môn – 89.29% Gwynedd - 91.49% Conwy - 87.89% Sir Ddinbych - 87.89% Codi safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen, i 93.5% Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn yr holl ddangosyddion ar draws y rhanbarth: <ul style="list-style-type: none"> ILICHs 40.6% ILICHc 43.1% DM 42.6% DPCh 69.3% 	Marc B.Hughes	Mehefin 2018	£50,000 (GGA11) 100 diwrnod £100,000 (M5) 300 diwrnod	Dengys data rhanbarthol cychwynnol a gasglwyd yn 2017 gynnydd o 1.1% yn y DCS Mae 4 maes y CS wedi cynyddu yn rhanbarthol – ILICHc 89.1% (+1.3%), ILICHs 88.4% (+1.9%), DM 90.1% (+0.6%) a DPCh 95.1% (+0.7%) <ul style="list-style-type: none"> Môn - 85.8% Gwynedd - 86.6% Conwy - 84% Sir Ddinbych - 85.5% Gwnaeth dau ALI welliannau sylweddol – Wrecsam a Sir y Fflint Sir y Fflint 86.9% i 89.5% (+2.6%) Wrecsam 86.6% i 88.4% (+1.9) O ganlyniad, adolygwyd feini prawf llwyddiant deilliannau'r rhain a nodwyd y gwelliannau sydd eu hangen ar lefel

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
Tud. 22							<p>ranbarthol ac ALI penodol ar gyfer Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Gosodwyd y targedau a ganlyn:</p> <p>Ynys Môn – 89.29%</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwynedd - 91.49% • Conwy - 87.89% • Sir Ddinbych - 87.89% <p>Nodwyd y lefelau uwch ar gyfer targedu pellach yn dilyn cynnydd eleni o: ILIChC 34.6% (+2.7%), ILIChS 38.6% (+2.3%), DM 38.2% (+2.3%) a DPCh 64.1% (+2.5%)</p> <p>Dyma'r targedau newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • ILIChS 40.6% • ILIChC 43.1% • DM 42.6% • DPCh 69.3%
	1 1.8 1.9 E1 C		<p>Cyfnod Allweddol 2 - gwella'r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2 	<p>Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2 i 90.1%.</p> <p>Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill.</p>	Marc B.Hughes	Mehffin 2018	£50,000 (GGA 2) 100 diwrnod £32,500 (M5) 65 diwrnod

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
ALI x 6 R6 R7	Tud. 23	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill 					<p>Saesneg (+1.7%), Mathemateg (+1.2%) a Gwyddoniaeth (+0.8%).</p> <p>Roedd tri ALI (Conwy, Wrecsam a Sir y Fflint) o fewn 0.5% i'w targed ar gyfer 2017 a rhagorodd dau ALI ar eu targed (Ynys Môn a Gwynedd). Roedd Sir Ddinbych 1.1% islaw eu targed</p> <p>Gwynedd (+1.3%) Ynys Môn (+0.4%) Conwy (-0.5%) Sir Ddinbych (-1.1%) Sir y Fflint (-0.3%) Wrecsam (-0.3%)</p> <p>Mae'r deilliannau uwch wedi gwella yn sylweddol yn 2017 fel a ganlyn: Cymraeg (+3.8%), Saesneg (+4.5%), Mathemateg (+6.1%) a Gwyddoniaeth (+5.6%)</p> <p>Yng Nghonwy, bu gwelliant o 1.7% (o 86.8% i 88.4%) – mymryn islaw'r targed o 88.9% ar gyfer 2017</p> <p>Ni lwyddodd 52 dysgwr nad oeddent ar y gofrestr</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							ADY i gyflawni'r DPC. Mae hyn yn 0.67% o garfan Blwyddyn 6. Gwynedd – 4 dysgwr Ynys Môn – 3 dysgwr Conwy – 4 dysgwr Sir Ddinbych - 6 dysgwr Sir y Fflint – 21 dysgwr Wrecsam – 13 dysgwr
1 1.8 1.9 E1 C ALI x 6 R6 R7	Tud. 24	Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3.	Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3 i 92.21%.	Elfyn V Jones	Mehefin 2018	£4,000 (M12) 8 diwrnod £1,000 (C3) 2 ddiwrnod £8,000 (M12) 16 diwrnod £1500 (M12) 3 diwrnod £1,000 (C1) 2 ddiwrnod £3000 (C1) 6 diwrnod	Rhannwyd dadansoddiad ag ALI Wrecsam a staff GwE sydd wrthi'n adnabod ac yn nodi grwpiau o ddysgwyr, pynciau ac ysgolion ar gyfer cefnogaeth. Gwelwyd cynnydd ers rhagamcan 2 yn ALI Wrecsam o ganlyniad i dargedu ysgolion unigol. Dengys AA ar gyfer 2017 gynnydd o 1.9%, i 86.3% yn y DPC. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.5%, a hwn yw'r cynnydd gorau yn y rhanbarth. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad o asesiadau terfynol athrawon bod gwella perfformiad ALI Wrecsam yng nghyfnod allweddol 3 yn

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
							flaenoriaeth o hyd, a rhoddir sylw i hyn yn eu cynllun ALL.
1	Tud. 25	Gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 4: <ul style="list-style-type: none"> • Gwella safonau yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4. • Gwella perfformiad yn y pynciau sylfaenol. 	<p>Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+ o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD ar gyfer L2+ yn codi o 5%.</p> <p>55% o ysgolion yn perfformio yn unol â neu'n uwch na'r deilliant ar gyfer L2+.</p> <p>Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A mewn TGAU, neu gyfwerth, o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth da gyda ffocws ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4.</p>	Elfyn V Jones	Awst 2018	<p>Craidd</p> <p>£60,000 (C2) 120 diwrnod</p> <p>£23,000 (C3) 46 diwrnod</p> <p>£25,000 50 diwrnod</p> <p>£125,000 (M12) 250 diwrnod</p> <p>£811000 (GGA5) 22 diwrnod</p>	<p>Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 Cynhwysol (L2+) yn waelodlin newydd ar gyfer Cymru a'r rhanbarth y flwyddyn yma.</p> <p>Yn 2017, arholwyd y manylebau newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth am y tro cyntaf. Mae mathemateg yn cynnwys dau faes llafur (Rhifedd a Mathemateg) ac mae y naill neu'r llall o'r rhain yn cyfrannu at y Trothwy Lefel 2 Cynhwysol (L2+). Yn ogystal â hyn, golyga newidiadau i'r dangosydd L2+ mai dim ond Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg sy'n cael ei gynnwys; yn y gorffennol roedd Llenyddiaeth TGAU, Cymraeg neu Saesneg, hefyd yn cyfrannu.</p> <p>Mae'r L2+ amodol ar gyfer GwE yn 53.5% (nid oes data ar gael ar hyn o bryd i'w gymharu â'r consortia eraill).</p>
1.1 - 1.5							
E1							
U							
ALI x 6							
R4							
R5							
R6							
R7							
R14							
R16							
R17							

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
1 1.1 – 1.10 E1 C U ALI x 6 R11	Tud. 26	Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.	Bydd y bwllch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS.	Elfyn V Jones / Marc B.Hughes	Awst 2018	£10,000 20 diwrnod Craidd	<p>Rhannwyd dadansoddiad o ragamcanion ag AauLL a staff GwE, sy'n nodi ac yn targedu grwpiau o ddysgwyr.</p> <p>Mae AA ar gyfer 2017 wedi cynyddu i 73.5% [o 67.6% yn 2015 a 73.3% yn 2016]. Mae mymryn o gynnydd yn y bwllch rhwng hPyd a dim PYD, o -17.2 i -18.0, oherwydd cynnydd o 1.0% ym mherfformiad disgyblion dim PYD.</p> <p>Dengys data cychwynnol bod perfformiad dysgwyr PYD yn y DCS wedi cynyddu o 1.7%, ac mae'r bwllch wedi lleihau o tua 1% yn 2017.</p> <p>CA4 - % dysgwyr PYD sydd wedi cyflawni'r L2+ wedi gostwng yn unol â'r gostyngiad a welwyd yn genedlaethol. Gellir rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad GwE mewn cymhariaeth â'r rhanbarthau eraill pan fydd y canlyniadau ar gael.</p>
1		Gwella perfformiad mewn Iaith Saesneg	Gwelliant yng nghanlyniadau Iaith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd	Gaynor Murphy	Awst 2018	£15,000 (C3) 30 diwrnod	Yn 2017, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
1.1 – 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R5 R7 R14 All x 6			cenedlaethol.				<p>A*-C yn Iaith Saesneg wedi cynyddu 1.75%. Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud gydag ysgolion unigol.</p> <p>Mae cynlluniau clir mewn lle i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â pherfformiad.</p>
1 1.1 – 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R5 R7 R14		Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd	Gwelliant yn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Dafydd Gwyn / Delyth Ellis	Awst 2018	£25,000 50 diwrnod	<p>Yn 2017, canran y dysgwyr sy'n cyflawni A*-C yn Mathemateg (56.2%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (58.7%).</p> <p>Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni A*-C Rhifedd yn rhanbarthol (58.1%), 1.9% yn uwch na chanlyniadau 2017 Mathemateg.</p> <p>Mae angen dadansoddi ymhellach er mwyn cyfrifo canran y disgyblion sydd wedi cyflawni un ai Mathemateg neu Rhifedd (h.y. y ffigur sy'n cyfrannu</p>

Tud. 27

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
ALI x 6	Tud. 28						<p>tuag at y L2+).</p> <p>Mae cynlluniau clir mewn lle i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â pherfformiad.</p> <p>Mae newidiadau i'r maes llafur TGAU wedi creu ansicrwydd ar draws y rhanbarth. Ffactor tra phwysig yw bod dros hanner o benaethiaid adrannau wedi'u penodi i'w rôl yn y ddwy flynedd ddiwethaf.</p>
1 1.1 – 1.10 E1 C U ALI x 6 R5 R7 R14 R16		<p>Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • PYD • Bechgyn • MATH 	Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD,Bechgyn, MATH) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4	Elfyn V Jones / Marc B.Hughes	Awst 2018	£10,000 20 diwrnod Craidd	<p>Rhannwyd dadansoddiad ag AauLL a staff GwE, sy'n nodi ac yn targedu grwpiau o ddysgwyr ac ysgolion ar gyfer cefnogaeth.</p> <p>Dengys data cychwynnol bod perfformiad dysgwyr PYD yn y DCS wedi cynyddu o 1.7%, ac mae'r bwllch wedi lleihau o tua 1% yn 2017.</p> <p>Mae'r bwllch rhwng y rhywiau yn y Cyfnod Sylfaen wedi lleihau ar draws y rhanbarth mewn 5 o'r 6 ALI, gyda</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
Tud. 29							<p>pherfformiad bechgyn yn gwella yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r deilliannau uwch wedi gwella yn sylweddol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2017: ILIChC (+2.7%); ILIChS (+2.3%); DM (+2.3%) a DPCh (+2.5%).</p> <p>Yn dilyn sefyldu gwaelodin newydd ar gyfer CA4 eleni, mae angen gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr wrth gymharu ag ysgolion tebyg.</p> <p>Mae perfformiad disgyblion PYD yng nghyfnod allweddol 4 yn flaenoriaeth allweddol o hyd.</p> <p>Mae cynlluniau clir mewn lle i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â pherfformiad</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Llythrennedd	Rhifedd	Methodoleg	Ysgol GwE	UCD
C					Vicky Lees	Manon Davies			
U	Sian Hydref	Gaynor Murphy	Delyth Ellis	Nicola Jones	Gaynor Murphy	Delyth Ellis	Dafydd Gwyn	Tîm	

	Lles a PYD/GDD	ADY a Chynhwysiant	AGA	Arfarnu ac Ymchwil	Iechyd a Ffitrwydd	Bagloriaeth Cymru	Cyfnod Sylfaen	AD/Llywodraethu	YSD
C	Sharon Williams	Richard Cubie	Eithne Hughes	Richard Watkins	Ieuan Jones		Sioned H Thomas		Stephanie Cartmel Ioan Gruffydd
U						Gwenno Jarvis			Phil McTague

Prosiect TGAU	Safon Uwch/Ôl-	Cydymffurfedd	Cynorthwywyr	Hyrwyddwr	Cymhwysedd	Penaethiaid	ANG
---------------	----------------	---------------	--------------	-----------	------------	-------------	-----

Tud. 102

		16		Cefnogi	Dangosfwrdd	Digidol Staff	Newydd	
C								
U	Martyn Davies	Martyn Froggett	Ioan Gruffydd	Stephanie Cartmel	Osiain Hughes	Sian Thomas	Gareth Davies	Ieuan Jones

ER MWYN CYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU, RYDYM WEDI GOSOD YR AMCANION HYN I'N HUNAIN ERBYN 2020

1. SAFONAU

- 1.1 Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni L2+ yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- 1.2 Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio yn unol â'r deiliant ar gyfer L2+ yn codi i 55% (o 38.2% yn 2016).
- 1.3 Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD, ar gyfer L2+, yn codi i 55% (o 40.0% yn 2016).
- 1.4 Bydd y bwlch rhwng yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio uchaf ac isaf mewn L2+ yn lleihau i 5% (o 9.2% yn 2017 - data dros dro).
- 1.5 Bydd canran y dysgwyr sy'n ennill 5A*-A mewn TGAU, neu gyfystyr, yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- 1.6 Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r DCS yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- 1.7 Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ar ddiwedd y CS yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- 1.8 Bydd safonau llythrennedd yn gwella fel bod o leiaf 18% o'r holl ddisgyblion yn cyflawni sgorau safonedig >115 mewn profion cenedlaethol, ym mhob cyfnod allweddol.
- 1.9 Bydd safonau rhifedd yn gwella fel bod o leiaf 18% o'r holl ddisgyblion yn cyflawni sgorau safonedig >115 mewn profion cenedlaethol, ym mhob cyfnod allweddol.
- 1.10 Bydd y bwlch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, yn y L2+ a'r DCS.
- 1.11 Bydd ysgolion y rhanbarth yn perfformio yn gyson uwch na'r perfformiad cenedlaethol yn y prif ddangosyddion perfformiad ôl-16 (yr amcan hwn i'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi'r mesuryddion perfformiad newydd).

2. CWRICWLWM AC ASESU

- 2.1 Sicrhau bod pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- 2.2 Sicrhau na fydd yr un ysgol yn anfodddhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.
- 2.3 Sicrhau bod o leiaf 85% o ysgolion yn cael eu barnu'n dda neu'n rhagorol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.
- 2.4 Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio data tracio yn bwrpasol i dargedu'r camau nesaf ym mhroses ddsygu pob disgybl.
- 2.5 Sicrhau bod 90% o ysgolion uwchradd o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau.
- 2.6 Lleihau'r amrywiad mewn ysgol uwchradd fel nad oes mwy na 5% rhwng yr adrannau pynciau craidd sy'n perfformio uchaf ac isaf yn y mwyafrif o ysgolion.
- 2.7 Sicrhau bod prosesau cymedroli cadarn ym mhob clwstwr fel bod cysondeb rhanbarthol a hyder mewn asesiad athro ym mhob cyfnod allweddol.
- 2.8 Sicrhau bod 10% o ysgolion yn arddangos astudiaethau achos arfer orau mewn cwricwlwm ac asesu, fel rhan o 'Ysgol GwE'.

3. ARWEINYDDIAETH

- 3.1 Byddwn wedi lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn categori statudol Estyn o 50% (o 17 (32.7%) yn Awst 2017 - data dros dro).
- 3.2 Ni fydd yr un ysgol mewn Mesurau Arbennig.
- 3.3 Byddwn wedi cynyddu cyfranogiad ymysg ein cynulleidfa darged yn ein rhaglenni arweinyddiaeth o 50%, a bydd bodlonrwydd cyffredinol gyda'r rhaglen yn codi o 85% - 90% i 95%.
- 3.4 Bydd 50% o'r athrawon sy'n cwblhau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol wedi cael dyrchafiad o fewn 3 blynedd.
- 3.5 Bydd 75% o ymgeiswyr CPCP wedi'u penodi yn Bennaeth o fewn 3 blynedd.
- 3.6 Bydd arweinyddiaeth yn y sector cynradd sy'n dda, o leiaf, yn ôl Estyn yn codi 5% (o 75% i 80% dros 3 blynedd) a bydd o leiaf 2 bwynt canrannol yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan.
Dim arweinyddiaeth anfodddhaol yn y sector cynradd.
- 3.7 Ni ddyfernir Gradd 'D' i'r un ysgol gynradd yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio (5 ysgol gynradd h.y. 1.4% yn 2016-17).
- 3.8 Bydd nifer yr ysgolion 'A' yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio yn y sector cynradd yn cynyddu o 50% o 102 (28%) i 153 (42%).
- 3.9 Bydd gan bob ysgol brosesau hunan arfarnu a chynlluniau gwella da neu well.

4. LLES

- 4.1 O leiaf 85% o ysgolion yn dda neu'n rhagorol ym Meysydd Arolygu 2 a 4.
- 4.2 Pob ysgol yn cydymffurfio â'r dyletswydd deddfwriaethol presennol a'r polisiau a'r gweithdrefnau diogelwch statudol.
- 4.3 Lles wedi'i wreiddio yn llawn yng nghynlluniau cwricwlwm pob ysgol i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer pob dysgwr yn bodloni agenda lles Dyfodol Llwyddiannus.
- 4.4 Gosodir 60% o ysgolion yn nau chwarter uchaf y data presenoldeb a gofnodir yn setiau data craidd Cymru gyfan. Sylw penodol yn cael ei roi i grwpiau o ddysgwyr targed â blaenoriaeth, fel y diffinnir gan Lywodraeth Cymru.
- 4.5 Ni fydd yr un Uned Cyfeirio Disgyblion mewn categori statudol Estyn.
- 4.6 Dim un plentyn sy'n derbyn gofal (PMG) yn cael gwaharddiad parhaol o fewn y rhanbarth.
- 4.7 Pob ysgol yn y rhanbarth yn defnyddio data tracio yn bwrsadol (presenoldeb ac ymddygiad) i dargedu dysgu a lles disgyblion ac i fonitro deilliannau er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol cyffredinol dysgwyr difreintiedig.
- 4.8 Pob ysgol yn gweithredu arolwg ymchwil y Rhwydwaith Iechyd a Lles mewn Ysgolion. Bydd y data yn cefnogi GwE i ddatblygu gwaelodlin ranbarthol i fesur dangosyddion lles mewn chwe prif faes, ac adnabod yr AauLL/ysgolion ble mae angen targedu cynhaliaeth ac ymyrraeth.
- 4.9 Pob ysgol â mynediad i becynnau sgrinio priodol er mwyn gallu arfarnu lles unigol dysgwyr ag ADY.
- 4.10 Pob ysgol â mynediad i ystod o adnoddau i fesur effaith ac arfarnu lles. Bydd hyn yn eu galluogi i fesur cynnydd dysgwyr mewn dysgu a lles o'u manau cychwyn unigol.
- 4.11 Pob ysgol â dulliau priodol o sicrhau llais y dysgwr, cyfranogiad a datblygu ymgysylltiad â theuluoedd er mwyn gwella cyflawniad a lles dysgwyr.
- 4.12 Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gynllun llwybr pontio cadarn er sicrhau dilyniant ôl-16 a lleihau nifer y NEET 16 oed i 6% ar draws y rhanbarth.

5. ADDYSGU

- 5.1 Bydd 90% o ysgolion yn dda neu well ym maes arolygu 3.
- 5.2 Bydd gwelliant yn yr addysgu yn 80% o'r Ysgolion Coch a Melyngoch a llai o amrywiad yn safon yr addysgu.
- 5.3 Pob athro i gael mynediad at waith ymchwil gweithredol GwE a Chymru gyfan, sy'n profi bod effaith ar wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. 40% o ysgolion yn cyfrannu at y cyfeiriadur tystiolaeth, ac o leiaf 90% o ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth i gyfoethogi'u harferion.
- 5.4 Cynnydd blynyddol o 25% yn nifer yr astudiaethau achos rhagorol, sydd â sicrwydd ansawdd, sy'n ymwneud ag Addysgu yng nghyfeiriadur GwE.
- 5.5 Pob ysgol (o'r 200+ fydd wedi elwa ar brosiect ymchwil gweithredol) yn cael graddau da neu well am ansawdd y dysgu a'r addysgu yn dilyn arolygiad Estyn (bydd hyn 5%, o leiaf, yn well na chanfyddiadau Estyn mewn ysgolion nad ydynt yn elwa ar y prosiect yn yr un cyfnod).
- 5.6 Yr holl ysgolion, athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd yn effeithiol i wella addysgeg drwy ddysgu proffesiynol, arweinyddiaeth, cydweithio ac arloesi. (Mae 80% o ysgolion ar y llwybr iawn i ddatblygu dysgu proffesiynol sy'n cael effaith ar ddeilliannau disgyblion).
- 5.7 Mae 50%, o leiaf, o athrawon sy'n cymryd rhan yn Haen 1 a 2 y prosiect ymchwil seiliedig ar weithredu yn nodi mwy o hyder a gwell agweddau tuag at ymchwil gweithredol.
- 5.8 Mae 80%, o leiaf, o'r athrawon sy'n cymryd rhan yn Haen 1 a 2 y prosiect ymchwil seiliedig ar weithredu yn defnyddio holl elfennau asesu ffurfiannol yn dda neu'n well.
- 5.9 Noda 40%, o leiaf, o'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect ymchwil seiliedig ar weithredu fwy o hyder a gwell agweddau tuag at ddysgu.

6. BUSNES

- 6.1 Fframwaith gwerth am arian yn cael ei weithredu yn gyson gan bawb.
- 6.2 Mae'r holl archwiliadau ariannol mewnol ac allanol yn cefnogi rheolaeth ariannol gadarn.
- 6.3 Mae mesurau i adnabod risgiau yn gynnar yn gadarn, ac fe'u rheolir yn effeithiol.
- 6.4 Mae system rheoli perfformiad gwasanaeth yn adnabod blaenoriaethau yn effeithiol, ac mae meini prawf llwyddiant clir.
- 6.5 System rheoli perfformiad effeithiol iawn sy'n nodi'n glir ein cyfeiriad ni i'r dyfodol.
- 6.6 System rheoli gwybodaeth effeithiol iawn ar waith a fydd yn bwydo i'r system gwerth am arian a rheoli perfformiad.
- 6.7 Perfformiad yn chwartzel uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.
- 6.8 Dangos cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

STRATEGAETH GWELLA YSGOLION UWCHRADD 2017-2020

Pwrpas y Strategaeth Gwella Ysgolion Uwchradd yw gosod cyfeiriad datblygiadau rhanbarthol dros y tair blynedd nesaf. Cyflwynir y rhaglen yng nghyd-destun polisiau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Rhoddir trefniadau rheoli cadarn ar waith er mwyn sicrhau y gweithredir pob agwedd ar y rhaglen yn llawn ac yn effeithiol. Darperir y cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r dangosyddion fel rhan o'n prosesau monitro ac arfarnu, ac fe'i rennir â'r rhanddeiliaid allweddol ar sail pob chwarter.

Bydd gweledigaeth, nodau ac amcanion y rhaglen strategaeth yn gyd-destun pwysig wrth wneud penderfyniadau strategol am ddyfodol gwella ysgolion uwchradd y rhanbarth, ac fe'u hadolygir yn gyson. Byddant hefyd yn ategu'r broses o ddenu rhagor o adnoddau ac arian i mewn i'r rhanbarth pan fyddant ar gael, os o gwbl.

Yn y ddogfen hon, mae gwybodaeth i'r rhanddeiliaid allweddol - ymgynghorwyr, ysgolion, llywodraethwyr, swyddogion yr awdurdodau lleol a chyfarwyddwyr addysg yr esgobaeth - a hynny am ein bwriadau. Fe'i hategir gan Gynllun Busnes Rhanbarthol Gwella Ysgolion Uwchradd L2 ar gyfer 2017-2018.

Cyflwyniad a gwybodaeth gyd-destunol atodol

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw cael ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion, rydym wedi gosod gwerthoedd gwasanaeth a gwerthoedd personol i'n hunain. Bydd yr egwyddorion a'r credoau arweiniol hyn yn sail i'n perthynas gyda'r holl randdeiliaid, ac yn cynnwys:

- ymddiriedaeth;
- dim tuedd;
- tegwch;
- parch at amryfaliaeth;
- cefnogi a chydweithio;
- dwyieithrwydd;
- gwrthrychedd;
- mynnu safonau uchel;
- gonestrwydd.

Mae camau gweithredu ein strategaeth yn gydnaws â'r cyfeiriad cenedlaethol fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun gweithredu ar gyfer 2017-21 *'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'*. Bydd ein taith tuag at ddiwygio a'n bwriadau yn ategu ac yn ymhelaethu ar y gweithredu allweddol a nodwyd gan y Gweinidog er mwyn cyflawni cyfundrefn addysg o'r radd flaenaf. Byddwn yn defnyddio adnoddau ac arbenigedd i gefnogi ysgolion i:

- **datblygu fel sefydliadau dysgu effeithiol** : drwy ddarparu her benodol a chefnogol, ein hamcan sylfaenol yw datblygu system hunan-wella sy'n rhoi ffydd mewn ysgolion a'u harweinwyr, ar bob lefel, i'n harwain ar y daith honno.
Mae angen i ysgolion wella'u hunain fel sefydliadau sy'n dysgu, er lles y dysgwyr yn eu gofal - rôl y gwasanaeth rhanbarthol yw sicrhau bod hyn yn digwydd yn effeithiol ac yn gyson.
- **datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm sy'n gweddnewid a'r trefniadau asesu, a hynny yn hyderus.** : drwy ddarparu rhwydwaith o sefydliadau sy'n cydweithio yn effeithiol, dan arweiniad a chefnogaeth ein hysgolion arloesi, byddwn yn sicrhau bod darpariaeth cwricwlwm addas i bob dysgwr ym mhob dosbarth. Bydd cynllunio fel ymateb i heriau a chyfleoedd *'Cwricwlwm i Gymru'* yn gonglfaen ein dull gweithredu rhanbarthol ar y cyd.
- **cyfrannu at y pedwar amcan galluogi** : drwy ddarparu arweiniad â ffocws a chydlynu rhaglen strwythuredig, byddwn yn sicrhau bod ysgolion yn cydweithio â rhanddeiliaid addysg allweddol. Bydd ein dull o weithio yn sicrhau cyfraniad rhanbarthol cryf ac effeithiol tuag at fodloni'r pedwar amcan galluogi cenedlaethol sef: datblygu proffesiwn addysg o safon uchel; arweinwyr sy'n ysbrydoli yn gweithio ar y cyd i godi safonau; ysgol gref a chynhwysol sydd wedi ymroi i ragoriaeth a lles a threfniadau asesu ac arfarnu ac atebolrwydd grymus sy'n sail i system hunan wella.

Fel rhanbarth, rydym yn cydnabod ein bod dal ar daith tuag at welliant a bod angen i ni wella yn sylweddol gyflawniad addysgol cyfnod allweddol 4 mewn llawer o'n hysgolion. Rhwng 2013 a 2016, bu patrwm y gwelliant ar draws y rhanbarth yn anghyson, a phryderon am berfformiad a phroffiliau arolygu canran sylweddol o ysgolion. Ar ôl ymgynghori ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Penaethiaid uwchradd, adolygydd y rhaglen gefnogaeth rhanbarthol ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae'n llawer rhy gynnar i arfarnu yn llawn effaith y model diwygiedig, ond mae'r arwyddion cynnar yn galonogol. Yn 2017, gwelwyd cynnydd pellach yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd yng nghyfnod allweddol 3, ac mae perfformiad y rhanbarth yn dal i fod y gorau o blith y pedwar consortiwm. Mae perfformiad rhanbarthol yn yr holl bynciau craidd, ar y lefelau disgwylidig ac uwch, yn gryf o hyd. Yng nghyfnod allweddol 4, bu i'r bwch rhwng

perfformiad GwE a'r ddau gonsortiw m sy'n perfformio orau yn y Lefel 2 cynhwysol leihau yn sylweddol yn 2017. Fel yr amlygir gan broffil categoreiddio sy'n gwella mewn llawer o ysgolion, gwelir gwelliannau hefyd yng nghanernid ac ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r profiadau dysgu.

Yn ystod eu hymweliad â'r ardal ym mis Hydref 2017, cydnabyddodd Steve Davies [Cyfarwyddwr Safonau Ysgolion, Llywodraeth Cymru], yr Athro Graham Donaldson a Marco Kools [Dadansoddwr gyda Chyfarwyddiaeth Addysg a Sgiliau yr OECD] y gwnaed cynnydd rhanbarthol cryf yn erbyn meysydd allweddol â blaenoriaeth.

Strategaeth Gwella 2017-2020

Mae'r ddogfen gyffredinol hon yn nodi sut y bydd GwE, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn rhoi sylw i'r diffygion a welwyd ac yn cryfhau arweinyddiaeth, codi cyrhaeddiad, codi dyheadau a chyflymu ymhellach gyflymdra'r gwelliant yn ysgolion y rhanbarth.

Bydd uchelgais yn allweddol wrth i ni symud ymlaen, a bydd angen gofalu bod pawb ohonom yn gosod disgwyliadau uchel i'n hunain wrth sicrhau ein bod i gyd yn cydweithio'n effeithiol i roi cymorth safonol ac amserol i'r naill a'r llall. Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr i sicrhau ein bod yn datblygu ar yr arfer orau sydd mewn nifer o ysgolion uwchradd y rhanbarth yn ogystal â defnyddio a rhannu'r arfer honno i gefnogi a herio'r ysgolion hynny ble nad yw safonau yn ddigon uchel eto. Bydd y disgwyliad bod pob ysgol uwchradd yn y rhanbarth yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu (YSD) wrth wraidd ein strategaeth.

Codi disgwyliadau a chyflymu gwelliannau wrth i ni symud ymlaen o fis Medi 2017

Dyma'r disgwyliadau lleiaf wrth symud ymlaen ar gyfer ein hawdurdodau lleol a'u holl ysgolion uwchradd fel sefydliadau sy'n dysgu:

- perfformiad y chwe Awdurdod Lleol yn unol â safleoedd PYD a meincnodau disgwyliedig CA4 yn y prif ddangosyddion, yn enwedig yn y L2+ a'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio.
- mae gwella perfformiad a chyflawniad disgyblion PYD a Mwy Abl a Thalentog yn flaenoriaeth allweddol ym mhob ysgol.
- arweinyddiaeth a rheolaeth dda ar bob lefel ym mhob ysgol.
- addysgu o ansawdd da ar gyfer pob disgybl ym mhob ystafell ddosbarth.
- mae cael gwared ar amrywiad o fewn ysgol yn flaenoriaeth allweddol ym mhob ysgol.
- ni ddylid gosod yr un ysgol uwchradd mewn categori statudol yn dilyn arolygiad gan Estyn.
- dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf.
- pob ysgol wedi gweithredu'n effeithiol i sicrhau bod disgwyliadau o ran *Dyfordol Llwyddiannus* ar waith
- gall pob ysgol ddangos ei bod yn sefydliad dysgu effeithiol.

Datblygu ein system hunan wella i ysgolion uwchradd

Rhaid sicrhau system ragoriaeth hunangynhaliol o safon uchel ar draws y sector uwchradd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ddarparu gwasanaeth cefnogi o safon uchel i ofalu ein bod yn cysylltu'r ysgolion hynny sy'n llwyddo'n dda a chefnogi'r rheiny y mae arnynt angen cymorth, cyngor a her.

Mae angen i system hunan wella gwmpasu ansawdd a chydraddoldeb; atebolrwydd ar y lefel uchaf bosib; sybsidiaredd; arfer yn seiliedig ar dystiolaeth; syniadau newydd; creadigrwydd ac uchelgais; cydweithio a phartneriaeth yn ogystal â gweithio tuag at les moesol (*Blueprint for a Self-Improving System in Wales 2015, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru*).

Rhaid sicrhau ein bod yn saerïo newid parhaol. Dysgu sydd wrth wraidd y gallu i newid - pan fo pobl, fel unigolion ac yn dorfol, yn ystyried ac yn herio eu dyletswyddau proffesiynol, eu credoau, eu sgiliau, eu cymhellion a'u hymarfer yn barhaus ac yn bwrpasol. Bydd newid yn digwydd o ganlyniad i newid mewn ymddygiadau a diwylliant o gydweithio, arloesi ac ymholi yn seiliedig ar dystiolaeth. Safonau proffesiynol fydd yn hwyluso ac yn galluogi'r newid hwn mewn ymddygiadau, safonau proffesiynol fydd yn wybyddus i bawb ym mhob ysgol. Rhaid sicrhau y defnyddir y rhain i yrru arloesi, cydweithio, ymchwil a datblygiad proffesiynol gan gydnabod ein bod ni i gyd, ar draws yr ystod o randdeiliaid, yn arweinwyr dysgu.

Fel rhanbarth, rhaid i ni saerïo system o ddysgu ble mae'r ffocws ar y cylch rhinweddol, ble rydym yn symud yn ein blaenau drwy arloesi a dangos creadigrwydd, dysgu gan y gorau, cefnogi ysgolion sy'n datblygu a sbarduno athrawon i ddysgu mwy am ein harferion proffesiynol.

Mae angen i'r drefn gydweithio fod yn hyblyg o fewn ysgolion, a rhwng ysgolion - nid ydym yn anelu at un drefn gyffredinol nac un model cydymffurfio. Rhaid i natur y cydweithio fod yn hyblyg ac yn ymatebol.

Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau bod:

- pob ysgol yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu
- ffocws penodol i'r nod tymor byr ar leihau amrywiadau o fewn ysgol
- gweithgareddau strategol yn canolbwyntio ar symud gwybodaeth ac arbenigedd o gwmpas y system
- datblygiad proffesiynol deallus yn cael ei gynllunio efo ysgolion, ac ar gyfer ysgolion
- gweithgareddau ymchwil a datblygu cydweithredol rhwng ysgolion o fudd i'r ymarferwyr perthnasol, drwy gyfoethogi arferion addysgu, helpu i ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl am addysgeg, codi disgwyliadau, codi cymhelliant a bod yn fwy agored tuag at gydweithwyr
- partneriaethau a strwythurau cydweithredol yn cael eu cynnal yn dda
- technolegau newydd yn cael eu defnyddio wrth symud a rhannu arbenigedd
- mae'r model wedi'i seilio a ymddiriedaeth, hyder a chydymdrech gytûn.

Datblygu cydymdrech gytûn

Bydd ein Rhaglen Her a Chefnoagaeth yn canolbwyntio ar gynyddu ymwneud arweinwyr ysgol, athrawon ac ymgynghorwyr sy'n cydweithio mewn ffyrdd gwahanol a hyblyg i sicrhau gwelliannau arfaethedig di-oed. Byddwn yn sicrhau bod y dull gweithredu yn cynyddu'r capasiti, y cyfrifoldeb a'r gwytnwch sy'n angenrheidiol ar gyfer hunan wella yn y dyfodol. Bydd y cydweithio yn cynnwys:

- gwella cyfleoedd am secondiadau tymor penodol i ddatblygu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol h.y. fel y gellir eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwelliant yn ysgolion eraill y rhanbarth. Yn ei dro, bydd y profiad hefyd yn datblygu ac yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u sgiliau nhw, gan greu cnewyllyn o arweinwyr effeithiol o fewn y gyfundrefn ysgolion.
- sicrhau comisïynu, a hynny'n effeithiol, ysgolion/arweinwyr/adrannau/athrawon llwyddiannus i ddarparu arweiniad a chefnogaeth o safon uchel i ysgolion eraill y rhanbarth
- cynyddu a gwella'r defnydd o grwpiau ffocws ac arolygon rhanddeiliaid er mwyn cael effaith ar brosesau cynllunio wasanaeth a chyfeiriad y daith.

Datblygu Fframwaith Gwerth am Arian

Mae'r strwythur cynllunio busnes presennol yn rhoi sylfaen dda i fonitro perfformiad. Er hynny, mae'n rhaid meintioli'r mewnbynnau a'r allbynnau yn fanylach er mwyn rhoi fframwaith ystyrion ar gyfer asesu gwerth am arian.

Er mwyn darparu adroddiad gwerth am arian cyfansawdd, byddwn yn canolbwyntio ar ddau brif faes i'w datblygu:

- ymestyn yr wybodaeth yn y cynlluniau busnes. Mae hyn yn gofyn am adnabod yr adnoddau a ddefnyddir i ddarparu'n erbyn pob cam gweithredu a hefyd, lle bo'n bosib, meintioli'r camau gweithredu a'r meini prawf yn fwy byth. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro yn well y modd y cyflawnir y cynllun busnes ac yn darparu gwybodaeth allweddol am werth am arian.
- sefydlu set ychwanegol o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur perfformiad a iechyd sefydliadol yn gyffredinol.

CA4 - ble rydym ni'n anelu cyrraedd erbyn 2020?

Mae Cynlluniau Busnes GwE wedi nodi ystod eang o amcanion a deilliannau heriol i bob blaenoriaeth allweddol - mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 y ddogfen [gweler isod]. Fodd bynnag, ar gyfer y sector uwchradd, gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol yw'r prif flaenoriaeth o hyd. Mae'r tabl isod yn dangos y targedau sydd wedi'u hadnabod ar gyfer y prif ddangosyddion ar gyfer y tair blynedd nesaf. Nodir hefyd yr awdurdodau lleol a'r ysgolion unigol sydd angen gwella perfformiad er mwyn sicrhau'r deilliannau rhanbarthol disgwyliedig:

MESURAU GWELLIANT RHANBARTHOL <i>*perfformiad a data targed i'w gadarnhau yn ystod tymor yr hydref 2017</i>	2016-17 Perfformiad	Targedau		
		2017-18	2018-19	2019-20
Lefel 2+ Trothwy	53.5			
Lefel 2 Trothwy	65.1			
Lefel 1 Trothwy	94.4			
5A*-A	14.8			
9 wedi capio	345.3			
Lefel 2+ Trothwy PYD	26.9			
Lefel 2 Trothwy PYD	37.4			
Lefel 1 Trothwy PYD	89.0			
5A*/A PYD	3.7			
9 wedi capio PYD	282.3			
Saesneg Iaith L2	62.1			

Cymraeg Iaith Gyntaf L2	70.6			
Mathemateg L2	56.3			
Mathemateg-Rhifedd L2	58.1			
'Best of Maths' L2	61.4			
Gwyddoniaeth L2	74.4			
Saesneg Iaith L2 PYD	36.4			
Iaith Gymraeg L2 PYD	48.2			
Mathemateg PYD	32.3			
Mathemateg-Rhifedd PYD	34.5			
'Best of Maths' PYD	37.5			
Gwyddoniaeth PYD	56.1			
DPC Cyfnod Allweddol 3	88.7			
DPC PYD Cyfnod Allweddol 3	73.5			
% yr ysgolion sy'n perfformio yn uwch na'r deiliant wedi'i fodlu ar gyfer L2+	i'w gadarnhau			
% yr ysgolion sy'n perfformio yn uwch na'r deiliant wedi'i fodlu ar gyfer SPC	i'w gadarnhau			
% yr ysgolion sy'n perfformio yn uwch na'r deiliant wedi'i fodlu ar gyfer Presenoldeb	i'w gadarnhau			
% yr ysgolion sy'n perfformio yn uwch na'r deiliant wedi'i fodlu ar gyfer Saesneg	i'w gadarnhau			
% yr ysgolion sy'n perfformio yn uwch na'r deiliant wedi'i fodlu ar gyfer Mathemateg	i'w gadarnhau			
% yr ysgolion sy'n perfformio yn uwch na'r deiliant wedi'i fodlu ar gyfer Mathemateg-Rhifedd	i'w gadarnhau			
Gostyngiad yn nifer yr ysgolion mewn Categori Statudol Estyn a dim ysgol i'w gosod mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl.	8 [14.5%]	4 [7.4%]	0	0
Cynnydd yn nifer yr ysgolion uwchradd a fernir yn A/B yng Ngham 2 y Categori Cenedlaethol	35 [64.8%]	40 [74.0%]	45 [83.3%]	48 [88.8%]
Gostyngiad yn nifer yr ysgolion uwchradd mewn categorïau cefnogaeth Melyngoch a Choch yng Ngham 3 y Categori Cenedlaethol.	22 [40.7%]	18 [33.3%]	12 [22.2%]	7 [12.9%]

Gweithredu Rhaglen Her a Chefnogaeth Uwchradd ddiwygiedig

O fewn ein fframwaith strategol, rhaid arddangos arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar gyfer ysgolion y rhanbarth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau:

- gwell craffu a dealltwriaeth o berfformiad ein holl ysgolion.
- bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gafael ar wybodaeth allweddol a thystiolaeth gefnogol o gynnydd ysgol.
- adrodd mwy effeithiol am berfformiad ysgolion ac AauL1 i aelodau etholedig.
- cydweithio mwy effeithiol ag uwch swyddogion AL1 wrth roi'r ystod o strategaethau ymyrraeth ar waith mewn ysgolion sy'n parhau i fod yn destun pryder.
- dyrannu adnoddau yn fwy effeithiol i yrru meysydd â blaenoriaeth a gwella perfformiad mewn *ysgolion risg uchel*.
- dyrannu a monitro grantiau GGA a GDD yn briodol er mwyn gyrru gwelliannau.
- cryfhau prosesau ar gyfer mesur effaith a gwerth am arian.
- cryfhau prosesau Rheoli Perfformiad o fewn y gwasanaeth, a bod gan bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant [a nodwyd fel Ymgynghorwyr Her yn flaenorol] fynediad i gefnogaeth a hyfforddiant o safon uchel.

Mae'r Rhaglen Her a Chefnogaeth Uwchradd ddiwygiedig ar gyfer 2017-19 yn rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn y ddogfen arweiniad *'Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol' [Tachwedd 2015]*, ac ymgynghorwyd yn eang â rhanddeiliaid allweddol fel yr oedd y model yn cael ei ddatblygu. Bydd y rhaglen ar gyfer 2017-18 yn cydymffurfio â disgwyliadau cenedlaethol o ran dull gweithredu gwahaniaethol yn unol â gallu presennol yr ysgol i hunan wella. Fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru, mae gan ysgolion yn y categorïau cefnogaeth gwyrd fwy o gyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain, tra caiff ysgolion yn y categorïau melyngoch a choch gefnogaeth fwy dwys i ddatblygu eu gallu i wella. Fodd bynnag, bydd ein rhaglen ddiwygiedig yn sicrhau dull mwy cyson ar draws y chwe awdurdod rhanbarthol.

Er mwyn cyflawni yn erbyn amcanion a deilliannau disgwylidig, byddwn yn gweithredu fel a ganlyn:

1	Gwella hunanarfarnu, cynllunio gwelliant, rheoli perfformiad a chefnogaeth fusnes.
1.1	Gweithredu model rheoli perfformiad unigol a gwasanaeth mwy grymus er mwyn gwella atebolrwydd a rheoli llinell ar bob lefel, a sicrhau bod Rheoli Perfformiad wedi'i alinio'n agos efo hunanarfarnu a blaenoriaethau ac amcanion cynllun busnes y gwasanaeth [gweler <i>Atodiad 1</i>].
1.2	<p>Cryfhau systemau a phrosesau cynllunio busnes a datblygu cynlluniau busnes L1, L2 a L3 manwl, sy'n dangos yn glir sut yr ydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol. Ar gyfer 2017-2019 bydd y rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safonau: sicrhau y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed. • Cwricwlwm ac asesu: sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu grymus mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn. • Arweinyddiaeth: sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth. • Lles: creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial. • Addysgu: sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig. • Busnes: sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian. • Argymhellion Estyn: sicrhau y gwneir y cynnydd angenrheidiol yn erbyn pob argymhelliad yn erbyn yr amserlen a ddisgwylir: <ul style="list-style-type: none"> ✓ A1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4. ✓ A2: Gwella ansawdd yr arfarnu wrth gyflawni gwasanaethau gwella ysgolion. ✓ A3: Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg. ✓ A4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol. ✓ A5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor. ✓ A6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.
1.3	<p>Ar gyfer pob cynllun busnes:</p> <ul style="list-style-type: none"> • meintioli'r mewnbynnau a'r allbynnau yn fanylach er mwyn rhoi fframwaith ystyrion ar gyfer asesu gwerth am arian. • adnabod yn glir yr adnoddau a ddefnyddir i gyflawni pob cam gweithredu a hefyd, lle bo'n bosib, meintioli'r camau gweithredu a'r meini prawf yn fwy byth. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro yn well y modd y cyflawnir y cynllun busnes ac yn darparu gwybodaeth allweddol am werth am arian. • sefydlu set ychwanegol o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur perfformiad a iechyd sefydliadol yn gyffredinol.
1.4	Cynnwys terfynau amser a thargedau manwl ar gyfer uwch swyddogion ac aelodau etholedig i fonitro cynnydd yn drylwyr yn erbyn blaenoriaethau.
1.5	Cynyddu capasiti a chryfhau ymhellach y gefnogaeth fusnes o fewn y strwythur llywodraethu corfforaethol.
2	Datblygu gwasanaeth o safon uchel a ddarperir yn gyson ar draws y rhanbarth.
2.1	<p>Datblygu dull gweithredu sy'n sicrhau bod gan bob ysgol, ble bynnag y mae o fewn y rhanbarth, fynediad i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • her a chefnogaeth o safon uchel a phrosesau monitro systematig i sicrhau gwelliannau cyson a bod meysydd ble mae angen darparu rhagor o gymorth yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw yn effeithiol. • arweiniad o safon uchel, a chyfleodd i ddatblygu'n broffesiynol, i'w cefnogi ar eu taith tuag at welliant. • rhwydweithiau effeithiol a fforymau strategol, sy'n hwyluso cydweithio agos a gweithio mewn partneriaeth. • cefnogaeth ac anogaeth barhaus wrth iddynt roi sylw i ddisgwyliadau o fewn <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> ac wrth

	iddynt ddatblygu a thrawsnewid yn sefydliadau dysgu effeithiol.
2.2	Cael gwared â'r dull gweithredu ar sail hwb o gefnogi ysgolion, a sefydlu tîm rhanbarthol sydd â mwy o hyblygrwydd i ddatblygu arbenigedd.
2.3	Penodi Uwch Arweinydd Uwchradd sydd â'r profiad angenrheidiol i arwain y tîm uwchradd a chynyddu atebolrwydd ar bob lefel.
2.4	Penodi Arweinwyr Craidd Uwchradd i bob awdurdod. Bydd yr Arweinwyr Craidd yn gweithio ar y cyd â swyddogion yr awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd y rhaglen gefnogaeth, a byddant yn adrodd yn gyson am gynnydd ac am unrhyw weithredu pellach angenrheidiol lle bo cynnydd mewn ysgolion unigol yn destun pryder. Bydd gofalu bod gan yr awdurdod fynediad buan at wybodaeth o safon am gynnydd ei ysgolion o'r pwys mwyaf i'w waith. Bydd y penodiadau hefyd yn gwella ymhellach yr atebolrwydd i bwyllgorau craffu lleol. Bydd yr Uwch Arweinydd Uwchradd yn rheolwr llinell ar bob Arweinydd Craidd, a byddant yn cyfarfod yn fisol i roi diweddariad ar gynnydd.
2.5	Gofalu bod gan bob Arweinydd Craidd ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt brofiad perthnasol, diweddar a llwyddiannus o arwain ar lefel uwch. O fis Medi 2017 ymlaen, ymgynghorwyr a gyflogir gan y gwasanaeth yn rhan-amser/llawn amser a chyfraniadau gan Swyddogion Addysg yr awdurdodau fydd yn cynrychioli gwaith y tîm uwchradd. Bydd y model hefyd yn cynnwys prosiect braenaru, pan fydd Ysgol Arweiniol sydd â pherfformiad uchel yn cael ei chomisiynu i drefnu ac i ddarparu pecyn cymorth ar gyfer dwy ysgol arall yn y categorïau Melyngoch/Coch.
2.6	Gofalu bod pob Arweinydd Craidd yn gweithredu prosesau a systemau effeithiol i fonitro a dwyn Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant [YCG] i gyfrif am gyflymder cynnydd a gwelliant mewn ysgolion unigol.
2.7	Gofalu bod pob YCG yn: <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu prosesau a systemau effeithiol i gefnogi a monitro cynnydd yn eu hysgolion cyswllt • defnyddio data a thystiolaeth gefnogol, yn effeithiol ac yn amserol, i weld ble mae angen targedu cefnogaeth bellach mewn ysgolion cyswllt • adnabod a diffinio yn gywir eu hysgolion cyswllt o fewn y model categoreiddio cenedlaethol.
2.8	Ar y cyd â'r awdurdodau a'r byrddau safonau ac ansawdd rhanbarthol a lleol sefydledig, bydd y byrddau lleol yn adrodd i Dîm Rheoli yr Adran Addysg am gynnydd, ac yn ymateb i unrhyw ymholiadau yn sgil gwaith craffu gan yr aelodau etholedig. Rhennir canlyniadau unrhyw graffu lleol yn y chwe awdurdod â Chyd-bwyllgor GwE, a fydd yn ystyried y gweithredu a'r cynnydd ar lefel ranbarthol.
2.9	Cydweithio â'r awdurdodau lleol i sefydlu byrddau gwella safonau carlam ym mhob ysgol categori statudol neu risg uchel i fonitro cynnydd yn erbyn deilliannau disgwylidig. Mae'r aelodau yn cynnwys y Pennaeth, yr ymgynghorydd GwE cyswllt, y Swyddog Addysg a chynrychiolaeth o'r Corff Llywodraethu. Cyflwynir adroddiadau cynnydd i sylw'r byrddau lleol a rhanbarthol.
2.10	Sefydlu model arweinyddiaeth ddsbarthol o fewn y tîm uwchradd, pan fo pob aelod yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am gynllunio, cyflawni a monitro cynnydd ar agweddau penodol neu feysydd ar gyfer gwelliant. Mae'r meysydd i'w datblygu yn 2017-18 yn cynnwys: uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol; cynllunio cwricwlwm; asesu; olrhain ac myrraeth; dysgu ac addysgu; rôl y corff llywodraethu; ADY a chynhwysiant; lles; ymddygiad a phresenoldeb; Safon Uwch; Cymhwysedd Digidol; codi safonau mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth [yn cynnwys llythrennedd a rhifedd] a Bagloriaeth Cymru [gweler Atodiad 2].
2.11	Sicrhau defnyddio'r Ymgynghorwyr Pwnc yn fwy effeithiol i hwyluso ac i arwain rhwydweithiau, i herio a chefnogi adrannau sy'n tanberfformio a chynnig cefnogaeth i ddatblygu llythrennedd a rhifedd.
2.12	Gofalu bod pob YCG yn deall agenda <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> ac yn gallu arwain, herio a chefnogi ysgolion yn effeithiol o ran meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth; arfarnu a chynllunio; ymgysylltiad a chyfranogiad, fel y bydd gan bawb, erbyn 2018: <ul style="list-style-type: none"> • gwricwlwm drafft wedi'i ddatblygu ar y cyd ag Ysgolion Arloesi, a • mynediad cyfartal i ystod o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol o safon uchel.
2.13	Sicrhau bod pob YCG yn wybodus ynghylch y 7 dimensiwn gweithredu, a'r elfennau sy'n sail iddynt, y mae angen i bob ysgol ymgynghorwyr tuag atynt wrth drawsnewid yn ' <i>sefydliadau sy'n dysgu</i> '. Erbyn 2018, dylai pob YCG allu arwain, herio a chefnogi ysgolion yn effeithiol i: <ul style="list-style-type: none"> • ddatblygu a rhannu gweledigaeth sy'n ganolog i ddysgu pob disgybl • creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus ymhlith yr holl staff • sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio • gwreiddio systemau ar gyfer casglu a chyfnwid gwybodaeth a dysgu • dysgu gydag, ac oddi wrth, yr amgylchedd allanol a systemau dysgu ehangach • modelu a meithrin arweinyddiaeth sy'n dysgu
2.14	Gofalu bod pob YCG yn wybodus ynghylch ac yn deall yr hyn sy'n cyfrannu at amrywiad mewn ysgol ac yn gallu arwain, herio a chefnogi ysgolion yn effeithiol i fynd i'r afael ag: <ul style="list-style-type: none"> • amrywiad mewn effeithiolrwydd athrawon, a defnyddio gweithdrefnau safonedig fel modd o gael gwared ar

	<p>amrywiad o fewn adran neu ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • unrhyw ddiffyg o ran datblygiad proffesiynol parhaus priodol. • rheolaeth ysgol wan sy'n ei gwneud hi'n anodd mynd i'r afael â'r mater a datblygu ffyrdd effeithiol o ddysgu o arfer orau. • cyfyngiadau sy'n ei gwneud hi'n anodd creu systemau i rannu sgiliau mewn, a rhwng, ysgolion.
2.15	Sicrhau bod rhaglen gefnogaeth helaethach ar gael i'r holl ysgolion er mwyn gwella ansawdd uwch arweinyddiaeth.
2.16	Sicrhau bod rhaglen gefnogaeth helaethach ar gael i'r holl ysgolion er mwyn gwella ansawdd arweinyddiaeth ganol.
2.17	<p>Sicrhau bod rhaglen gefnogaeth helaethach ar gael i'r holl ysgolion er mwyn datblygu ymhellach ansawdd y dysgu a'r addysgu. Bydd ffocws yr arweiniad a'r cymorth i athrawon ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • annog athrawon i fod yn fwy agored i her a newid. • annog athrawon i gymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd am ddyheadau, cyrhaeddiad a deilliannau eu disgyblion. • cyfoethogi cyfleoedd i rannu eu harferion da, eu gwybodaeth a'u sgiliau yn eu hysgolion eu hunain ac â'r gymuned addysgu ehangach. • sicrhau trefniadau sefydlu a mentora o safon uchel i Athrawon sydd Newydd Gymhwys. • targedu cynhaliaeth i godi cyflawniad yn y pynciau craidd. • lleihau amrywiad mewn perfformiad ac ansawdd o fewn, ac ar draws, adrannau.
2.18	<p>Sicrhau bod rhaglen arweiniad helaethach ar gael i'r holl ysgolion er mwyn datblygu lles disgyblion, a bod pob YCG yn wybodus ac yn hyderus yn eu dealltwriaeth o sut i gefnogi arweinwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hybu lles drwy atal, adnabod yn gynnar a darparu gwasanaethau priodol. • gwella lles a deilliannau addysgol plant mewn gofal a dysgwyr hPYD i ddod â nhw yn unol â chyflawniad cyffredinol pob plentyn.
2.19	Sicrhau y caiff pob ysgol, waeth beth fo eu categori cefnogaeth, fynediad i Raglen Gefnogaeth GwE i ategu eu cynllun gwella eu hunain. Bydd pob cynllun cefnogaeth yn nodi'r glir natur a dwyster y cymorth a'r gefnogaeth i'w darparu dros y flwyddyn, a chytunir ar y cynllun a'i rannu ag arweinwyr, llywodraethwyr a swyddogion cyswllt yr awdurdodau.
2.20	Sefydlu System Rheoli Gwybodaeth i wella'r defnydd a wneir o ddata byw a gwybodaeth i fonitro cynnydd ac i dargedu adnoddau gan ysgolion, GwE a'r awdurdodau lleol.
2.21	Sefydlu ysgol arfer orau rithiol [Ysgol GwE] i fodelu disgwyliadau a rhannu adnoddau safonol â rhanddeiliaid allweddol [gan gynnwys llywodraethwyr].
3	Datblygu system hunan wella sy'n gadarnach
3.1	Gofalu bod y dull rhanbarthol o weithredu system hunanwella yn cwmpasu ansawdd a chydaddoldeb; atebolrwydd ar y lefel uchaf bosib; sybsidiaredd; arfer yn seiliedig ar dystiolaeth; syniadau newydd; creadigrwydd ac uchelgais; cydweithio a phartneriaeth.
3.2	Sicrhau y defnyddir y safonau proffesiynol yn effeithiol i arloesi, cydweithio, ymchwilio a datblygu'n broffesiynol. Cydnabyddir ein bod ni gyd yn arweinwyr dysgu ar draws yr ystod o randdeiliaid.
3.3	Parhau i ddatblygu capasiti ar gyfer system hunan wella gynaliadwy drwy ddatblygu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o ysgolion ar draws y rhanbarth, fel y gellir eu defnyddio'n effeithiol am gyfnodau penodol i weithio'n ddwys gydag ysgolion cyfforddus ac ysgolion sy'n tanberfformio. Yn ei dro, bydd y profiad hefyd yn datblygu ac yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u sgiliau nhw, gan greu cnewyllyn o arweinwyr effeithiol o fewn y gyfundrefn ysgolion.
3.4	Sicrhau comisiynu, a hynny'n effeithiol, ysgolion/arweinwyr/adrannau/athrawon llwyddiannus i ddarparu arweiniad a chefnogaeth o safon uchel i ysgolion eraill y rhanbarth
3.5	Hwyluso'r defnydd o waith ymchwil ac arfarnu i hybu arferion effeithiol, ac annog ysgolion ymhellach wrth iddynt ddatblygu a thrawsnewid yn sefydliadau dysgu effeithiol.
3.6	Sicrhau ein bod yn cysylltu mentrau cenedlaethol yn fwy effeithiol ag anghenion ysgolion a grwpiau o ysgolion.

Diffinio disgwyliadau y gwahanol rolau o fewn gwella ysgolion

Rôl y Tîm Gwella Ysgolion Uwchradd

- sicrhau ymateb cydynol i gefnogi ysgolion a fydd yn cynnwys arweiniad a chyfleoedd datblygiad proffesiynol o safon uchel i'w cefnogi ar eu taith tuag at welliant.
- sicrhau bod rhwydweithiau a fforymau strategol effeithiol wrth law i ysgolion, sy'n hwyluso cydweithio agos a gweithio mewn partneriaeth.
- monitro perfformiad ar lefel ranbarthol, lleol ac ysgol unigol.

- sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu'n effeithiol, ac yn effeithlon.
- nodi'n glir meysydd i'w gwella sydd angen sylw ar lefel ranbarthol ac/neu leol, ac ymateb yn briodol.

Rôl yr Arweinydd Craidd

- ar y cyd â Swyddogion yr ALL, sicrhau bod pob ysgol yn yr awdurdod yn deall ac yn cyflawni ei dyletswyddau statudol.
- cytuno ar dargedau perfformiad blynyddol priodol ar gyfer pob dangosydd perthnasol, a sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i fonitro cynnydd tuag at y targedau yn rheolaidd.
- dadansoddi data perfformiad yn effeithiol i bob ysgol uwchradd yn yr awdurdod, ac adrodd ar ganfyddiadau a chynnydd.
- sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn yr awdurdod yn cael ei chefnogi, ei herio a'i monitro yn effeithiol gan yr YCG a bod ymyrraeth gynnar yn cael ei thargedu ble gwelir bod tanberfformio.
- bod yn rheolwr llinell a pherfformiad i bob agwedd ar waith yr YCG cyswllt, sy'n cynnwys:
 - cyfarfod â phob YCG cyswllt yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cadw at y disgwyliadau fel yr amlinellir yn nogfennau strategol GwE a'r safonau cenedlaethol.
 - sicrhau bod pob YCG yn cyfathrebu yn effeithiol, yn glir ac yn rheolaidd â phob ysgol, bod ganddynt dargedau a herir yn rymus a bod camau priodol ar waith i gefnogi a monitro cynnydd tuag at dargedau.
 - sicrhau bod pob YCG yn dod i farn ar eu hysgolion ar sail tystiolaeth o safon uchel, sy'n cynnwys dadansoddiad grymus o ddata a dogfennau strategol, barn rhanddeiliaid ac ansawdd safonau ar draws pob cyfnod allweddol perthnasol.
 - sicrhau bod gan bob YCG cyswllt gynlluniau cefnogaeth safonol y cytunwyd arnynt gyda'u hysgolion a bod gweithredu priodol wedi'i adnabod i leihau amrywiad mewn ysgol.
 - sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r YCG cyswllt mewn trafodaethau gyda'r UDA a swyddogion ALL lle cyfyd pryderon am gynnydd neu gyflymder cynnydd mewn ysgolion unigol.
- arwain ymweliad monitro ffurfiol mewn ysgolion uwchradd sydd wedi'u gosod mewn categori statudol yn y gwahanol AauLL, ac adrodd am gynnydd i Uwch Arweinydd Uwchradd GwE a swyddogion ALL.
- sicrhau bod strategaethau comisiynu effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliannau ar lefel ysgol unigol ac ehangach o fewn yr ALL, a chyfrannu yn uniongyrchol fel bo'n briodol.
- rhoi cyngor ac argymhellion wrth benodi penaethiaid ac aelodau UDauA mewn ysgolion uwchradd a'u datblygiad proffesiynol.
- cynrychioli GwE ym mhob fforwm strategol lleol i benaethiaid uwchradd
- mynychu cyfarfodydd byrddau ansawdd safonau lleol a chyfarfodydd pwyllgorau craffu fel cyswllt y sector â'r Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod swyddogion ac aelodau etholedig yn cael gwybod am gynnydd eu hysgolion.

Rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant [YCG]

- cynnig cefnogaeth a her i bob sefydliad yn unol â'r angen, gyda ffocws penodol ar godi safonau a meithrin capasiti ar gyfer gwelliannau pellach.
- sicrhau eu bod yn gweithio mewn partneriaeth bwrpasol gyda'u holl ysgolion cyswllt i adnabod blaenoriaethau allweddol ar sail hunanarfarniad cywir o safonau, darpariaeth ac ansawdd yr arweinyddiaeth.
- herio targedau perfformiad pob ysgol, cynnal rhaglen monitro cynnydd yn unol ag angen ac adrodd i'r UDA, y llywodraethwyr a'r Arweinydd Craidd.
- gofalu bod gan bob ysgol Raglen Gefnogaeth gynhwysfawr a phriodol, a bod unrhyw arbenigedd ychwanegol ar gyfer ysgolion unigol yn cael ei chomisiynu a'i diffinio yn y Cynllun Cefnogaeth blynyddol.
- gofalu bod rhaglen weithredu wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn yn yr holl ysgolion cyswllt.
- sicrhau bod yr holl ysgolion cyswllt wedi cynllunio sut i ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg [GGA] a'r Grant Datblygu Disgyblion [GDD] yn effeithiol er mwyn mynd i'r afael â meysydd allweddol ar gyfer gwelliant.
- monitro ac adolygu ymwneud staff mewn gweithgareddau DPP dan arweiniad GwE sy'n berthnasol i daith yr ysgol tuag at welliant.
- sicrhau bod proses Rheoli Perfformiad y pennaeth yn cael ei gweithredu yn briodol.
- hybu rhannu arfer orau a hwyluso cydweithio rhwng ysgolion.
- sicrhau gofal bugeiliol effeithiol i'r holl ysgolion cyswllt cyn, yn ystod ac yn dilyn arolygiad gan Estyn
- cwblhau'r broses Categori Cenedlaethol gyda'r holl ysgolion cyswllt.


Rôl Arweinwyr Ysgolion

Mae timau arweinyddol mewn ysgolion yn rhan annatod o'r rhaglen ac yn chwarae rhan allweddol wrth sbarduno gwelliant mewn safonau. Mae gan benaethiaid, yn benodol, rôl hanfodol ac maent yn cynnig toreh o brofiad a gwybodaeth. Rôl y gwasanaeth rhanbarthol yw sicrhau bod yr adnodd sylweddol hwn yn cael ei ddefnyddio yn fwy effeithiol i sicrhau bod arweinwyr yn:

- ddiflino wrth yrru gwelliannau a bod ganddynt ddyheadau uchel.
- darparu arweinyddiaeth gref gyda ffocws cryf ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
- ymroddedig i ddarparu datblygiad proffesiynol arweinyddol o safon uchel i bob aelod staff.
- sicrhau rheoli perfformiad ac atebolrwydd grymus gan arweinwyr canol a staff addysgu.
- gallu dadansoddi data perfformiad yn effeithiol i adolygu cryfderau a gwendidau, a sicrhau bod hunanarfarnu a monitro cywir yn llywio ac yn dylanwadu ar gynllun gwella'r ysgol.
- agored i her a newid.

- edrych tua'r dyfodol ac yn deall sut y gall cydweithio a rhannu arfer dda sicrhau gwelliannau rhanbarthol.

Atodiad 1: ATEBOLRWYDD FFRAMWAITH RHEOLI PERFFORMIAD CYNLLUNIO BUSNES



Atodiad 2: Strwythur Tîm Cefnogi Uwchradd GwE

Rheolwr Gyfarwyddwr
Arwyn Thomas

Cyfarwyddwr Cynorthwyol	Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Rhys H. Hughes	Alwyn Jones

Uwch Arweinydd Uwchradd
Elfyn V Jones

Uwch Arweinydd Cynradd
Marc B. Hughes

Uwch Arweinydd Dyfodol Llywddiannus
Ruth Thackery

	Arweinydd Craidd Môn	Arweinydd Craidd Gwynedd	Arweinydd Craidd Conwy	Arweinydd Craidd Sir Ddinbych	Arweinydd Craidd Sir y Fflint	Arweinydd Craidd Wrecsam	Arweinydd Sicrhau Ansawdd	Arweinydd Ansawdd a Data	Arweinydd Dysgu Proffesiynol
C	Meinir Hughes	Ioan Gruffydd	Sioned H Thomas	David Edwards	Jacqueline Chan	Jane Borthwick	Stella Gruffydd	Llyr G. Jones	Euros Davies
U	Sharon Vaughan	Ellen Williams	Phil McTague	Paul M Jones	Martyn Froggett	Pam McClean			

	Dyfodol Llywddiannus	Cwricwlwm	Asesu	Datblygu Uwch Arweinyddiaeth	Datblygu Arweinyddiaeth Ganol	Cefnogi Llywodraethwyr	Cymhwysedd Digidol	Dysgu ac Addysgu	Ysgolion Bach Gwledig
C	Catrin Roberts a Jane Borthwick	Meinir Hughes	Jacqueline Chan	David Edwards	Ian Kelly	Euros Davies		Stella Gruffydd	Geraint Evans
U	Bethan James	Paul M Jones	Phil McTague	Pam McClean	Ellen Williams a Sharon Vaughan	Paul Coakley	Simon Billington	Bethan James	

	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Llythrennedd	Rhifedd	Methodoleg	Ysgol GwE	UCD
C					Vicky Lees	Manon Davies			
U	Sian Hydref	Gaynor Murphy	Delyth Ellis	Nicola Jones	Gaynor Murphy	Delyth Ellis	Dafydd Gwyn	Tîm	

	Lles a PYD/GDD	ADY a Chynhwysiant	AGA	Arfarnu ac Ymchwil	Iechyd a Ffitrwydd	Bagloriaeth Cymru	Cyfnod Sylfaen	AD/Llywodraethu	YSD
C	Sharon Williams	Richard Cubie	Eithne Hughes	Richard Watkins	Ieuan Jones		Sioned H Thomas		Stephanie Cartmel Ioan Gruffydd
U						Gwenno Jarvis			

Tud. 118

	Prosiect TGAU	Safon Uwch/Ôl-16	Cydymffurfedd	Cynorthwyr Cefnogi	Hyrwyddwr Dangosfwrdd	Cymhwysedd Digidol Staff	Penaethiaid Newydd	ANG
C			Ioan Gruffydd	Stephanie Cartmel	Osian Hughes	Sian Thomas	Gareth Davies	Ieuan Jones
U	Martyn Davies	Martyn Froggett						

Atodiad 3: Amcanion a Deilliannau'r Cynllun Busnes

ER MWYN CYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU, RYDYM WEDI GOSOD YR AMCANION HYN I'N HUNAIN ERBYN 2020

1. SAFONAU

- Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni L2+ yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio yn unol â'r deiliant ar gyfer L2+ yn codi i 55% (o 38.2% yn 2016).
- Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD, ar gyfer L2+, yn codi i 55% (o 40.0% yn 2016).
- Bydd y bwch rhwng yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio uchaf ac isaf mewn L2+ yn lleihau i 5% (o 9.2% yn 2017 - data dros dro).
- Bydd canran y dysgwyr sy'n ennill 5A*-A mewn TGAU, neu gyfystyr, yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- Bydd safonau llythrennedd yn gwella fel bod o leiaf 18% o'r holl ddisgyblion yn cyflawni sgorau safonedig >115 mewn profion cenedlaethol, ym mhob cyfnod allweddol.
- Bydd safonau rhifedd yn gwella fel bod o leiaf 18% o'r holl ddisgyblion yn cyflawni sgorau safonedig >115 mewn profion cenedlaethol, ym mhob cyfnod allweddol.
- Bydd y bwch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau yn y L2+, o 5% o leiaf.
- Bydd ysgolion y rhanbarth yn perfformio yn gyson uwch na'r perfformiad cenedlaethol yn y prif ddangosyddion perfformiad ôl-16 (yr amcan hwn i'w gadarnhau yn dilyn cyhoeddi'r mesuryddion perfformiad newydd).

2. CWRICWLWM AC ASESU

- Sicrhau bod pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Sicrhau na fydd yr un ysgol yn anfodddhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.
- Sicrhau bod o leiaf 85% o ysgolion yn cael eu barnu'n dda neu'n rhagorol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.
- Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio data olrhain yn bwrpasol i dargedu'r camau nesaf ym mhroses ddysgu pob disgybl.
- Sicrhau bod 90% o ysgolion uwchradd o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau.
- Lleihau'r amrywiad mewn ysgol uwchradd fel nad oes mwy na 5% rhwng yr adrannau pynciau craidd sy'n perfformio uchaf ac isaf yn y mwyafrif o ysgolion.
- Sicrhau bod prosesau cymedrol cadarn ym mhob clwtwr fel bod cysondeb rhanbarthol a hyder mewn asesiad athro ym mhob cyfnod allweddol.
- Sicrhau bod 10% o ysgolion yn arddangos astudiaethau achos arfer orau mewn cwricwlwm ac asesu, fel rhan o 'Ysgol GWE'.

3. ARWEINYDDIAETH

- Byddwn wedi lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn categori statudol Estyn o 50%.
- Ni fydd yr un ysgol mewn Mesurau Arbennig.
- Byddwn wedi cynyddu cyfranogiad ymysg ein cynulleidfa darged yn ein rhaglenni arweinyddiaeth o 50%, a bydd bodlonrwydd cyffredinol gyda'r rhaglen yn codi o 85% - 90% i 95%.
- Bydd 50% o'r athrawon sy'n cwblhau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol wedi cael dyrchafiad o fewn 3 blynedd.
- Bydd 75% o ymgeiswyr CPCP wedi'u penodi yn Bennaeth o fewn 3 blynedd.
- Bydd arweinyddiaeth yn y sector uwchradd sy'n dda, o leiaf, yn ôl Estyn yn codi 5% (o 55% i 60% dros 3 blynedd), ac o leiaf 2 bwynt canrannol yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan.
- Dim arweinyddiaeth anfodhaol yn y sector uwchradd.
- Ni ddyfemir Gradd 'D' i'r un ysgol uwchradd yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio (5 ysgol uwchradd h.y. 9% yn 2016-17).
- Bydd nifer yr ysgolion 'A' yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio yn y sector uwchradd yn cynyddu o 100%, o 12 (22%) i 24 (44%).
- Bydd gan bob ysgol brosesau hunanarfarnu a chynlluniau gwella da neu well.

4. LLES

- O leiaf 85% o ysgolion yn dda neu'n rhagorol ym Meysydd Arolygu 2 a 4.
- Pob ysgol yn cydymffurfio â'r dyletswydd deddfwriaethol presennol a'r polisiau a'r gweithdrefnau diogelwch statudol.
- Lles wedi'i wreiddio yn llawn yng nghynlluniau cwricwlwm pob ysgol er sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer pob dysgwr yn bodloni agenda lles Cwricwlwm i Gymru.
- Gosodir 60% o ysgolion yn nau chwarter uchaf y data presenoldeb a gofnodir yn setiau data craidd Cymru gyfan. Sylw penodol yn cael ei roi i grwpiau o ddysgwyr targed â blaenoriaeth, fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru.
- Yr un plentyn sy'n derbyn gofal (PMG) yn cael gwaharddiad parhaol o fewn y rhanbarth.
- Pob ysgol yn y rhanbarth yn defnyddio data olrhain yn bwrpasol (presenoldeb ac ymddygiad) i dargedu dysgu a lles disgyblion ac i fonitro deilliannau er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol cyffredinol dysgwyr difreintiedig.
- Pob ysgol yn gweithredu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion uwchradd. Bydd y data yn helpu GwE i ddatblygu gwaelodlin ranbarthol i fesur dangosyddion lles mewn chwe prif faes ac i adnabod AauLl/ysgolion sydd arnynt angen cymorth ac ymyrraeth wedi'i dargedu.
- Pob ysgol â mynediad i becynnau sgrinio priodol er mwyn gallu arfarnu lles unigol dysgwyr ag ADY.
- Pob ysgol â mynediad i ystod o adnoddau i fesur effaith ac i arfarnu lles. Bydd hyn yn eu galluogi i fesur cynnydd dysgwyr mewn dysgu a lles o'u manau cychwyn unigol.
- Pob ysgol â dulliau priodol o sicrhau llais a chyfranogiad y dysgwr ac o ddatblygu ymgysylltiad â theuluoedd er mwyn gwella cyflawniad a lles dysgwyr.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gynllun llwybr pontio cadarn er mwyn sicrhau dilyniant ôl-16 a lleihau nifer y NEET 16 oed i 6% ar draws y rhanbarth.

5. ADDYSGU

- Bydd 90% o ysgolion yn dda neu well ym maes arolygu 3.
- Bydd gwelliant yn yr addysgu yn 80% o'r Ysgolion Coch a Melyngoch a llai o amrywiad yn safon yr addysgu.
- Pob athro i gael mynediad at waith ymchwil gweithredol GwE a Chymru gyfan, sy'n profi bod effaith ar wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. 40% o ysgolion yn cyfrannu at y cyfeiriadur tystiolaeth, ac o leiaf 90% o ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth i gyfoethogi'u harferion.
- Cynnydd blynyddol o 25% yn nifer yr astudiaethau achos rhagorol, sydd â sicrwydd ansawdd, sy'n ymwneud ag Addysgu yng nghyfeiriadur GwE.
- Pob ysgol (o'r 200+ fydd wedi elwa ar brosiect ymchwil seiliedig ar weithredu) yn cael graddau da neu well am ansawdd y dysgu a'r addysgu yn dilyn arolygiad Estyn (bydd hyn 5%, o leiaf, yn well na chanfyddiadau Estyn mewn ysgolion nad ydynt yn elwa ar y prosiect yn yr un cyfnod).
- Yr holl ysgolion, athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd yn effeithiol i wella addysgeg drwy ddysgu proffesiynol, arweinyddiaeth, cydweithio ac arloesi. (Mae 80% o ysgolion ar y llwybr iawn i ddatblygu dysgu proffesiynol sy'n cael effaith ar ddeilliannau disgyblion).
- Mae 50%, o leiaf, o athrawon sy'n cymryd rhan yn Haen 1 a 2 y prosiect ymchwil seiliedig ar weithredu yn nodi mwy o hyder a gwell agweddau tuag at ymchwil gweithredol.
- Mae 80%, o leiaf, o'r athrawon sy'n cymryd rhan yn Haen 1 a 2 y prosiect ymchwil seiliedig ar weithredu yn defnyddio holl elfennau asesu ffurfiannol yn dda neu'n well.
- Noda 40%, o leiaf, o'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect ymchwil seiliedig ar weithredu fwy o hyder a gwell agweddau tuag at ddysgu.

6. BUSNES

- Fframwaith gwerth am arian yn cael ei weithredu yn gyson gan bawb.
- Mae'r holl archwiliadau ariannol mewnol ac allanol yn cefnogi rheolaeth ariannol gadarn.
- Mae mesurau i adnabod risgiau yn gynnar yn gadarn ac fe'u rheolir yn effeithiol.
- Mae system rheoli perfformiad gwasanaeth yn adnabod blaenoriaethau yn effeithiol, ac mae meini prawf llwyddiant clir.
- System rheoli perfformiad effeithiol iawn sy'n nodi'n glir ein cyfeiriad ni i'r dyfodol.
- System rheoli gwybodaeth effeithiol iawn ar waith fydd yn bwydo i'r system gwerth am arian a rheoli perfformiad.
- Perfformiad yn chwarter uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.
- Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 Tachwedd 2017

Adroddiad gan: Is grŵp y Gymraeg

Pwnc: Cynllun i Ddatblygu'r Gweithlu i Gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun 'Datblygu'r Gweithlu i Gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg' i'r Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 O ddyfynnu o lythyr Cyfarwyddwr, y Gorfforaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru - Steve Davies (Gorffennaf 2017):

“Un o nodau Llywodraeth Cymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nod hwn. Bydd angen i ni gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a gwneud newidiadau i'r cwricwlwm i sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Mae datblygu sgiliau a capasiti y gweithle i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, felly, yn hanfodol”.

Yn ychwanegol mae pob consortiwm addysg Rhanbarthol yn derbyn dyraniad ychwanegol tuag at ddatblygiad proffesiynol sgiliau Cymraeg ac addysgeg addysgu ymarferwyr.

Bydd yn ofynnol i'r consortia ymgymryd â rhaglen o waith a fydd yn cynnwys:

- mapio sgiliau iaith Cymraeg y gweithle, a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg;
- dod o hyd i ymarferwyr i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol;
- cynnal rhaglen o ddysgu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr a fydd yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r Cynllun Sabothol
- mentora cymorth rhwng ysgolion a'i gilydd;

- rhannu arferion effeithiol a darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol Cymraeg i ymarferwyr.

Mae GwE wedi derbyn dyraniad grant o £557,051. Y blaenoriaethau canlynol sydd wedi cael eu hadnabod:

1. Datblygu a hyrwyddo strategaeth a pholisi Rhanbarthol
2. Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg
3. Arolwg o ddarpariaethau cyfredol sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion, hyfforddeion, ac addysgwyr, ynghyd a chyrsgiau sydd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd
4. Sicrhau darpariaeth addas a phriodol o gyrsiau a hyfforddiant iaith Gymraeg sydd yn cwrdd â'r angen a adnabuwyd gan y gweithlu addysg
5. Rôl rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
6. Cynnal ac ystyried yr holl ymchwil ym maes dwyieithrwydd a hyrwyddo'r Gymraeg
7. Codi ymwybyddiaeth, rhannu Gwybodaeth a chyfathrebu

3.0 Materion i'w hystyried

- 3.1 Y bwriad yw i Is grŵp y Gymraeg weithredu fel Bwrdd Prosiect ar gyfer y gwaith yma, ac fe fydd is grwpiau penodol yn cael eu ffurfio i arwain ar ffrydiau gwaith y blaenoriaethau gwahanol.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo briff y prosiect a gwaith yr Is grŵp.

5.0 Goblygiadau ariannol

- 5.1 Mae GwE wedi derbyn grant o £557,051 ar gyfer y gwaith yma. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

- 8.1 Mae cynrychiolaeth o'r 6 awdurdod a GwE ar yr Is Grŵp.
Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

- 9.1 Briff Prosiect

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Yn rhan 5 o'r adroddiad, mae'r awdur yn cadarnhau y bydd arian grant penodol yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MŌN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CYNLLUN I DDATBLYGU'R GWEITHLU I GEFNOGI'R GYMRAEG MEWN ADDYSG

- **Yng Ngogledd Cymru**

Cynllun Gweithredu:

1. Cefndir y Prosiect

O ddyfynnu o lythyr Cyfarwyddwr, y Gorfforaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru - Steve Davies (Gorffennaf 2017)

“Un o nodau Llywodraeth Cymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nod hwn. Bydd angen i ni gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a gwneud newidiadau i'r cwricwlwm i sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Mae datblygu sgiliau a capasiti y gweithle i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, felly, yn hanfodol”.

Mae Llywodraeth Cymru'n wedi ymrwymo i fuddsoddi £4.2m ychwanegol er mwyn rhoi hwb i addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r arian a ddyrannwyd ar gyfer:

- Cefnogi'r gwaith o ddarparu ac ehangu'r cynllun Sabothol Cenedlaethol i athrawon cynradd ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Gwellu sgiliau Cymraeg dysgwyr dryw gyfleoedd anffurfiol – rhaglen o Gymorth i helpu ysgolion cyfrwng Saesneg
- Denu graddedigion cyfrwng Cymraeg – angen recriwtio mwy o raddedigion i fod yn athrawon yn y sector cyfrwng Cymraeg ac i addysgu Cymraeg fel pwnc.

Yn ychwanegol mae pob consortiwm addysg Rhanbarthol yn derbyn dyraniad ychwanegol tuag at ddatblygiad proffesiynol sgiliau Cymraeg ac addysgeg addysgu ymarferwyr.

Bydd yn ofynnol i'r consortia ymgymryd â rhaglen o waith a fydd yn cynnwys:

- mapio sgiliau iaith Cymraeg y gweithle, a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg;
- dod o hyd i ymarferwyr i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol;
- cynnal rhaglen o ddysgu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr a fydd yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r Cynllun Sabothol
- mentora cymorth rhwng ysgolion a'i gilydd;
- rhannu arferion effeithiol a darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol Cymraeg i ymarferwyr.

Mae Consortiwm Addysg GwE wedi derbyn dyraniad grant o £571,000. Mae'r rhaglen o waith yn cynnwys cyd weithio ar draws 6 awdurdod addysg y Gogledd (Conwy, Dinbych, Gwynedd, Wrecsam, Y Fflint ac Ynys Môn). Y blaenoriaethu canlynol sydd wedi cael eu hadnabod:

1. Datblygu a hyrwyddo strategaeth a pholisi Rhanbarthol
2. Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg
3. Arolwg o ddarpariaethau cyfredol sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion, hyfforddeion, ac addysgwyr, ynghyd a chysiau sydd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd
4. Sicrhau darpariaeth addas a phriodol o gyrsiau a hyfforddiant iaith Gymraeg sydd yn cwrdd â'r angen a adnabuwyd gan y gweithlu addysg
5. Rôl rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)
6. Cynnal ac ystyried yr holl ymchwil ym maes dwyieithrwydd a hyrwyddo'r Gymraeg
7. Codi ymwybyddiaeth, rhannu Gwybodaeth a chyfathrebu

2. Strwythur arfaethedig y Tîm Prosiect

CYDBWYLLGOR GwE (Penderfynu)

BWRDD RHEOLI (GwE)

- 6 x Prif Swyddog Addysg Statudol (un o bob Awdurdod Lleol Gogledd Cymru)
- Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ac aelodau o'r Uwch Dim Arwain (fel bo'r angen)

BWRDD ANSAWDD RHANBARTHOL (BAR) GwE

BWRDD PROSIECT (Cyfarwyddo) GRŴP LLYWIO IS-GRŴP Y GYMRAEG

- **Conwy** - Sioned Kearns
- **Gwynedd** - Garem Jackson, Debbie A W Jones, Carys Lake, Alun Llwyd, Eleri Llewelyn
- **GwE** - Alwyn Jones, Esyllt Maelor, Rhian Mair Jones, Bethan Eleri Roberts
- **Dinbych** - Heddwen Edwards
- **Prifysgol Bangor** - Enlli Thomas, Gwawr Maelor Williams
- **Wrecsam** - Carwyn Davies
- **Fflint** - Rhian Edwards
- **Môn** - Gwyneth Hughes

SWYDDOGAETHAU PENODOL - BWRDD PROSIECT

- **Uwch Ddefnyddiwr** - Cydlynnydd y Prosiect Esyllt Maelor
- **Arweinydd** - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE Alwyn Lloyd Jones
- **Uwch Gyflenwr** - Swyddog Addysg Ardal (Gwynedd) Debbie A W Jones
- **Rheolwr Prosiect** - Eleri Llewelyn Owen

TÎM PROSIECT (Rheoli a Chyflawni)

- **Rheolwr Prosiect** - Eleri Llewelyn
- **GwE** - Alwyn Ll Jones, Bethan E Roberts a Susan O Jones
- **Cyngor Gwynedd** - Debbie AW Jones
- **Swyddog Prosiect** - ?

3. Amcanion/ Blaenoriaethau:

<i>Gweithred</i>	<i>Prif gynhyrchion</i>	<i>Deilliant</i>	<i>Cost</i>
Blaenoriaeth 1:			
Trefniadau Llywodraethu, cydlynu, a rheolaeth prosiect effeithiol mewn lle – (gweler uchod)			
<ul style="list-style-type: none"> Penodi Cydlynnydd Penodi arweinydd maes ar gyfer pob blaenoriaeth Penodi Rheolwr a Swyddog Prosiect a sefydlu trefn rheolaeth prosiect Sefydlu Bwrdd Llywodraethu a Grŵp Rheoli Sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad Estyn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 		<ul style="list-style-type: none"> Arbenigedd yn y maes yn dwyn ynghyd holl flaenoriaethau'r prosiect Atebolrwydd clir ar gyfer pob blaenoriaeth Rheolaeth effeithiol o'r prosiect, y gyllideb, a'r holl fudd-ddeiliaid Trefniadau llywodraethu priodol a chadarn o'r prosiect 	£80,000
Blaenoriaeth 2:			
Datblygu a hyrwyddo strategaeth a pholisi Rhanbarthol			
<p>90128</p> <p>Comisiynu unigolyn/ cwmni i lunio strategaeth a pholisi Rhanbarthol ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg Cynyddu cynhwysiad gweithlu consortiwm GwE i allu ymateb i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno'r strategaeth ar ffurf naratif ac 'infographic' Cyhoeddi, hyrwyddo, a chyflwyno dulliau monitro'r strategaeth ymysg penaethiaid a rhan-ddeiliaid allweddol ar draws y rhanbarth 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfeiriad strategol a pholisi Rhanbarthol clir mewn lle ac yn weithredol 	£20,000
Blaenoriaeth 3:			
Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg			
<p>Mewn cyd weithrediad gyda Llywodraeth Cymru, cynnal arolwg o sgiliau a hygredded iaith Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau Addysg (GwE/ Adrannau Addysg x6) Ysgolion (Penaethiaid/ Athrawon/ Cymorthyddion/ Ymarferwyr/ Staff Ategol) Gwasanaethau bugeiliol ac arbenigol i ysgolion (e.e. NSPCC/ Medra ayyb) Comisiynu unigolyn/ cwmni i gynnal arolwg a dadansoddi'r canfyddiad o ofynion y gweithle 	<ul style="list-style-type: none"> Addasu templed LLC 'Arolwg Sgiliau Iaith' a sicrhau modd o lenwi'r holiadur ar lein. Sicrhau lledaenu'r wybodaeth i bob awdurdod yng nghyswllt yr arolwg a'r angen i bob ysgol Adnabod y mathau o ddarpariaeth/ hyfforddiant fyddai'n gweddu i'r gweithlu Cysylltu'r arolwg gyda'r gofynion o fewn y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Mewn cyd weithrediad efo Llyw. Cymru, creu cronfa ddata o'r sgiliau a dadansoddi canlyniadau'r arolwg Sefydlu gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg 	£50,000

Blaenoriaeth 4:

Arolwg o ddarpariaethau cyfredol sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion, hyfforddeion, ac addysgwyr, ynghyd a chyrsgiau sydd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd

<ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu arolwg o gynnwys cyrsiau a rhaglenni cyfredol sydd yn arwain at gymhwyster, tystysgrif, cydnabyddiaeth neu yn Adnabod lefel hyfredded o ran sgiliau iaith Gymraeg. Ynghyd a chyrsgiau sydd yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a manteision dwyieithrwydd. • Comisiynu arolwg i adnabod y ddarpariaeth a'r bylchau o ran adnoddau, rhaglenni amgen, cyrsiau ar-lein, cyfraniad y cyfryngau, technolegau digidol, Siarter Iaith, canolfannau diwylliannol a sefydliadau adloniant 	<p>Creu Cyfeirlyfr o gynnwys cyrsiau, darpariaeth ac adnoddau darparwyr y Gogledd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nant Gwrtheyrn • Sabothol • Prifysgol Bangor (AGA) • Coleg Cambria • Coleg Glyndŵr • Grŵp Llandrillo Menai <p>Cyrsiau Gweithleoedd megis</p> <ul style="list-style-type: none"> • Betsi Cadwaladr • Heddlu Gogledd Cymru • Parc Cenedlaethol • Byd Gwaith <p>Cyfeirlyfr o gynnwys cyrsiau ERW/ CSC/ EAS</p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu, darparu a pheilota cyrsiau hyfforddi'r gweithle • Paratoi cyrsiau ar gyfer hyfforddi'r hyfforddeion 	<p>Dealltwriaeth o ddarpariaeth gyfredol sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion, hyfforddeion ac addysgwyr wedi ei sefydlu.</p>	<p>£50,000</p>
---	--	--	----------------

Tud. 129

Blaenoriaeth 5:

Sicrhau darpariaeth addas a phriodol o gyrsiau a hyfforddiant iaith Gymraeg sydd yn cwrdd â'r angen a adnabuwyd gan y gweithlu addysg

<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried prif negeseuon o'r dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg o sgiliau iaith Gymraeg yr holl weithlu addysg • Ceisio cydweddu prif negeseuon yr arolwg sgiliau gyda'r cyrsiau iaith cyfredol a ddarperir. • Adnabod unrhyw fylchau/ rhwystrau yn y ddarpariaeth gyfredol o gyrsiau iaith ar sail prif negeseuon yr arolwg sgiliau • Ar sail y dystiolaeth o angen, comisiynu darparwr i deilwra cyrsiau/ creu cyrsiau o'r newydd gan ganolbwyntio ar brif negeseuon yr arolwg sgiliau. • Ar sail y dystiolaeth o angen, Cynllunio a darparu dilyniant ol-ofal pwrpasol yn y gweithle • Treialu/ blaenoriaethu sylw a buddsoddiad cychwynnol i'r athrawon sydd yn addysgu'r pynciau craidd. 	<p>Creu bas data o'r hyfforddiant sydd ar gael eisoes:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Athrawon ymgynghorol pob Awdurdod - Cyrsiau Sabothol - Cydlynwyr Siarter Iaith/ Cymraeg campus - CYDAG - Prifysgol Bangor - Coleg Cambria - Canolfan Popeth Cymraeg - Prifysgol Glyndŵr - EDAU - CBAC - Grŵp Llandrillo - Menai - Betsi Cadwaladr/ Heddlu Gogledd Cymru <ul style="list-style-type: none"> • Rhannu Gwybodaeth ynghylch hyfforddiant methodoleg e.e. Ymweld â Chanolfan Iaith/ Athrawon Ymgynghorol/ Ymgynghorwyr annibynnol; Cynllunio/ Ymchwil beth sydd ar gael 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu darpariaeth addas a phriodol o gyrsiau a hyfforddiant iaith Gymraeg sydd yn cwrdd â'r angen a adnabuwyd gan y gweithlu addysg. • Rhagor o'r gweithlu addysg yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith ac yn defnyddio mwy o Gymraeg (gyda blaenoriaeth i athrawon y pynciau craidd) 	<p>£265,000</p>
--	---	--	-----------------

Tud. 130	<ul style="list-style-type: none"> Treialu ymyraethau amrywiol ar sail anghenion a adnabuwyd gan y 6 x awdurdod addysg. 	<ul style="list-style-type: none"> Arolwg o gyrsiau/ darpariaeth ac Adnoddau sydd eisoes yn bodoli e.e. HWB/ERW/CSC/EAS/GwE – cynradd ac uwchradd Hyfforddiant ar sut i ddatblygu'r iaith yn gymdeithasol Staff wedi'u penodi fel mentor ar gyfer yr athrawon sydd wedi mynychu'r cyrsiau Sabothol. Rheoli perfformiad pwrpasol sy'n plethu'n bwrpasol gyda'r HMS. Tystiolaeth i fesur effaith yr hyfforddiant Adnabod ymgeiswyr addas ar gyfer y cyrsiau: arbenigo mewn iaith pynciau craidd – ffocysu ar yr elfen ysgrifenedig Arfogi'r gweithlu presennol i gefnogi addysgu'n ddwyieithog. Pob awdurdod i Adnabod ysgolion i beilota ymyraethau unigol a rhannu deilliannau dros y rhanbarth Cynllunio bwriadus ar gyfer hyfforddiant a thargedu athrawon e.e. Lefel 1/Lefel 2 ayyb Plethu i mewn i'r continuum iaith Darparu hyfforddiant addas ar gyfer yr ymarferwyr e.e. Seicolegwyr Addysgol, Therapyddion Iaith, Cymorthyddion Dysgu. Datblygu Adnoddau i gefnogi'r athrawon i addysgu pynciau craidd yn ddwy ieithog 	<ul style="list-style-type: none"> Rhagor o ddysgwyr/plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg Mwy o adnoddau dwy –ieithog er mwyn arfogi'r gweithlu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> Arfogi'r gweithlu presennol i gefnogi addysgu'n ddwyieithog
----------	--	---	--	---

Yn Atodol:

Cynlluniau Peilot sydd yn rhan o'r ymchwil ac adnabod arfer da ynghlwm â blaenoriaethau 3, 4 a 5 uchod (â'r cyllidebau cysylltiedig):

- 3** Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- 4** Arolwg o ddarpariaethau cyfredol sy'n datblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion, hyfforddeion, ac addysgwyr
- 5** Sicrhau darpariaeth addas a phriodol o gyrsiau a hyfforddiant iaith Gymraeg sydd yn cwrdd â'r angen a adnabuwyd gan y gweithlu addysg

Cynlluniau peilot:

- Nifer o gynlluniau peilot penodol ar draws pob awdurdod

Blaenoriaeth 6:

Rôl rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)

Adnabod cyfleoedd ychwanegol i gydweithio gydag Adrannau Addysg y Prifysgolion ar strategaeth i hyrwyddo:	<p>Gwaith cefndirol</p> <ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth Prifysgolion o'r prosiect arfaethedig 	<ul style="list-style-type: none"> Athrawon newydd gymhwyso yn meddu ar ymwybyddiaeth iaith a sgiliau priodol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. 	£30,000
---	--	--	---------

<ul style="list-style-type: none"> Gwerthfawrogiad darpar-athrawon o'r iaith Gymraeg Cynnwys modiwlau ar ddwyieithrwydd Gwaith ymchwil a gyflwynir ar ddysgu iaith mewn addysgu, dwyieithrwydd Addysgeg a phedagogi yn y maes Materion o ran asesu dysgwyr dwyieithog/ amlieithog Cynnwys ac allbwn tystysgrifau sgiliau iaith achrededig presennol ar gyfer hyfforddeion cyfrwng Saesneg a Chymraeg er mwyn hyrwyddo eu gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg Dulliau cydweithio/ hyfforddiant a gyflwynir i fentoriaid yn y maes am y tystysgrifau a dulliau o fentora'r hyfforddeion Adnabod cyfleoedd i gydweithio ar flaenoriaethau perthnasol y strategaeth gydag Adrannau Addysg y Prifysgolion 	<ul style="list-style-type: none"> Cynorthwyo Prifysgolion i flaenoriaethu'r ffactorau allweddol wrth gynllunio ar gyfer y Gymraeg o fewn y cyrsiau AGA newydd (cyrsiau fydd yn weithredol 2019 ymlaen) Annog y partneriaethau newydd i lunio Cod Ymarfer Dwyieithrwydd er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael rôl amlwg ar lefel gweinyddol, rheolaethol ac addysgol. <p>Camau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Llunio a threfnu cyfres o weithdai ac adnabod siaradwyr gwadd i'w gynnal Ionawr – Gorffennaf 2018 Cynnal awdit o ymwybyddiaeth staff o strategaeth addysgol mewn cyd-destun dwyieithog ac iaith leiafrifol ac o unrhyw gyrsiau sydd yn/wedi bodoli i gynyddu'r ymwybyddiaeth hwn. Cynnal hyfforddiant pwrpasol i fentoriaid a darlithwyr/ myfyrwyr i'w harfogi gydag ymwybyddiaeth gadarn a chyfredol o amgylch y themâu canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Datblygiad iaith Materion penodol o ran datblygu'r Gymraeg Materion priodol ynghylch dwyieithrwydd Addysgeg ddwyieithog ac ymchwil yn y maes (gweler 7 isod) 		
--	--	--	--

Tud. 131

Blaenoriaeth 7:

Cynnal ac ystyried yr holl ymchwil ym maes dwyieithrwydd a hyrwyddo'r Gymraeg

<ul style="list-style-type: none"> Comisiynu ymchwil i faes dwyieithrwydd ac arfer gorau o ran dysgu ac addysgu dwyieithog a thrawsieithu Trafod a chytuno gyda Phrifysgolion y rhanbarth ar gynnwys cyflwyniadau/ hyfforddiant i athrawon ar ymchwil ym maes dwyieithrwydd, materion amrywiol ar ddwyieithrwydd e.e. arferion da mewn pedagogiaeth addysgu iaith, dulliau ymchwil gweithredol fel rhan graidd o'u darpariaeth i athrawon. Creu cyfleoedd gyda'r Prifysgolion, consortia a phenaethiaid i gynnig cyfleoedd ac i adnabod 	<p>Ymchwil A - Llyfryddiaeth gefndirol</p> <ul style="list-style-type: none"> Coladu gwaith ymchwil parod (wedi ei gyhoeddi a heb ei gyhoeddi) yma yng Nghymru ym maes dwyieithrwydd ac ym maes hyrwyddo'r Gymraeg. Dylai'r gwaith fynd ar ôl ymchwil ieithyddol, seicoieithyddol, sosioieithyddol, addysgol a pholisi yn bennaf, ond hefyd ar ôl ymchwil yn y gwyddorau iechyd ac mewn unrhyw faes arall ble mae hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenoriaeth. Adroddiad terfynol ar y gwaith <p>Ymchwil B - Uwch sgilio arweinwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymchwil gyda phenaethiaid ac arweinwyr ysgolion i 	<ul style="list-style-type: none"> Rhagor o ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd a'r Gymraeg. 	<p>£30,000</p>
--	---	---	----------------

<p>ymarferwyr addas i ymgymryd â gwaith ymchwil gweithredol fyddai'n hyrwyddo cynlluniau datblygu ysgol o ran y Gymraeg, ansawdd sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr, Siarter Iaith, darpariaeth hwyrddyfodiad</p>	<p>ganfod agweddau tuag at y Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg er mwyn Adnabod y rhwystrau i annog defnydd a pherchnogaeth o'r iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llundio cyfres o weithdai/ hyfforddiant gydag ysgolion i uwch sgilio staff fel eu bod wedi eu harfogi i ddelio gydag, a chynllunio'n effeithiol, y sefyllfa ieithyddol benodol yn eu hysgol <p>Ymchwil C – Gwerthuso strategaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod ysgolion targed i werthuso strategaethau parod ac i gynnal a chyd-lunio unrhyw strategaethau addysgu newydd a ddaw yn sgil argymhellion ymchwil A a B (yn cynnwys gwerthuso effaith gweithdai uwch sgilio) • Adnabod tîm i werthuso'r strategaethau addysgol • Gwerthuso'r strategaethau • Darparu adroddiad ar y canfyddiad <p>Ymchwil Ch – Dadansoddi'r sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'r data a ddaw o ganlyniadau'r arolwg o sgiliau iaith Gymraeg yr holl weithlu addysg (cydweithio ar flaenoriaeth 3 a 5) 		
--	--	--	--

Blaenoriaeth 8:

Codi ymwybyddiaeth, rhannu Gwybodaeth a chyfathrebu

<p>Mewn cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru, codi ymwybyddiaeth, rhannu Gwybodaeth a chyfathrebu negeseuon allweddol am y prosiect o ran ei fwriad a'r deilliannau gyda budd-ddeiliaid allweddol yng nghyd-destun ysgolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwasanaethau Addysg (GwE/ Adrannau Addysg x6) - Ysgolion (Penaethiaid/ Athrawon/ Cymorthyddion/ Ymarferwyr/ Staff Ategol/ Rhieni/ Dysgwyr) - Gwasanaethau bugeiliol ac arbenigol i ysgolion (e.e. NSPCC/ Medra ayyb) <p>...a gyda budd-ddeiliaid allweddol y tu hwnt i ysgolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prifysgolion/ Cymraeg i Oedolion/ Cynllun Sabothol/ Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru/ Gweithleoedd amrywiol/ Mentrau Iaith 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio'r briff ar gyfer y cyflwyniadau Cynnal Cyfarfodydd efo: <ul style="list-style-type: none"> - GwE - Cydbwyllgor GwE (arweinwyr portffolio)/ Bwrdd Rheoli GwE (penaethiaid addysg) - Penaethiaid Uwchradd - Gwynedd/ Môn; Conwy/ Dinbych; Fflint/ Wrecsam - Penaethiaid Cynradd - Cymdeithas Llywodraethwyr Gogledd Cymru - Fforwm Undebau Gogledd Cymru - Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru – Iwan Thomas – casglu Gwybodaeth a'i rannu - Bwrdd Partneriaethol (gwasanaethau ac asiantaethau eraill) – casglu gwybodaeth a'i rannu. <p>Cynnal digwyddiad penodol mewn ymgynghoriad efo Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymwybyddiaeth uchel o'r prosiect ymysg rhanddeiliaid ar draws rhanbarth y gogledd 	£26,000
---	--	---	---------

DRAFFT

4. Sgôp

Beth sydd o fewn sgôp y prosiect?

- Datblygu Strategaeth a pholisi Rhanbarthol
- Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg
- Arolwg o ddarpariaeth bresennol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg oedolion
- Sicrhau darpariaeth addas o hyfforddiant iaith Gymraeg
- Dealltwriaeth o rôl Addysg gychwynnol athrawon (AGA)
- Ystyried yr holl waith ymchwil ym mae dwyieithrwydd a hyrwyddo'r Gymraeg
- Codi ymwybyddiaeth, rhannu Gwybodaeth a chyfathrebu

Beth nad yw'r prosiect yn ei gynnwys?

- Mewnbyn rhieni
- Ymchwil i gynlluniau digidol
- Y disgyblion
- Byd- gwaith/ maes diwydiant
- Colegau Addysg Bellach

Cyswllt neu berthynas gyda phrosiectau neu weithgareddau eraill:

- Fforymau iaith
- Y Siarter iaith
- Byd sgiliau
- Bwrdd Partneriaeth byd gwaith
- Ymarfer da ac ymchwil o wledydd eraill

5. Rhagdybiaethau

- Adnodd prosiect yn cael ei reoli gan GwE, angen adnabod yr amser y bydd pob swyddog/ awdurdod addysg yn gallu'i gynnig i'r prosiect.

6. Cyfyngiadau

- Angen sicrhau bod pob awdurdod addysg yn cyfrannu amser ac arbenigedd i'r prosiect
- Lleoliad y tîm prosiect yn bennaf yng Ngwynedd ond y gwaith yn cwmpasu'r 6 awdurdod ar draws Gogledd Cymru
- Cyllideb wedi'i gosod ac yn ddibynnol ar arweiniad penodol gan Lywodraeth Cymru o ran nifer o agweddau
- Amserlen benodol ar gyfer y gwariant – angen hawlio'r costau erbyn 12 Mawrth 2018

7. Budd-ddeiliaid

Gwasanaethau Addysg: GwE/ Adrannau Addysg x6

Ysgolion: Penaethiaid/ Athrawon/ Cymorthyddion/ Ymarferwyr/ Staff Ategol

Gwasanaethau bugeiliol ac arbenigol i ysgolion (e.e. NSPCC/ Medra ayyb)

Darparwyr hyfforddiant ar draws Gogledd Cymru: Nant Gwrtheyrn / Cyrsiâu Sabothol/ Prifysgol Bangor (AGA)/ Coleg Cambria/ Coleg Glyndŵr/ Grŵp Llandrillo Menai

Cyrsiâu Gweithleoedd: megis Betsi Cadwaladr/ Heddlu Gogledd Cymru/ Parc Cenedlaethol/ Byd Gwaith

Defnyddwyr: disgyblion a rhieni

Mudiadau: Cylochoedd Meithrin, Yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Theatrau

8. Cyllid:

Grant Llywodraeth Cymru £557,051 cyfyngiad amser - diwedd Mawrth 2018